



# **Cyngor Rhondda Cynon Taf**

## **Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol**

**2016–2017**

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen.

I wneud cais, ffoniwch 01443 444531 neu anfonwch ebost i

[cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk](mailto:cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk)

## Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
1. Cyflwyniad	3
2. Pwy ydyn ni	4
3. Adrodd am Gydraddoldeb	4
4. Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol	5
5. Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol	6
6. Amcanion Cydraddoldeb	26
7. Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb	31
8. Data Monitro Cyflogaeth	32
9. Caffael	33
10. Gwybodaeth Hygyrch	34
11. Gwaith Pellach	34
12. Manylion Cyswllt	35

## ATODIADAU

Atodiad 1

Data Monitro Cyflogaeth

## **1. Cyflwyniad**

Mae'n bleser i mi gyflwyno'r adroddiad cydraddoldeb. Mae'r adroddiad yn nodi dulliau gweithredu'r Cyngor o ran darparu gwybodaeth am ei waith ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor, yn unol â Dyletswyddau Cydraddoldeb Cymru, gadw adroddiad blynyddol ynglŷn â sut mae e wedi cyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol sydd wedi'i nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd cyhoeddi'r wybodaeth am yr holl ofynion mewn un adroddiad, yn ei gwneud hi'n haws i'r grwpiau sydd â diddordeb, weld sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei ymrwymiad i gydraddoldeb, ei oblygiadau cyfreithiol, a'r camau gweithredu sydd ynghlwm wrth y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae pob rhan o'r adroddiad yn cynnwys crynodeb o gynnydd y Cyngor. Mae'r adran olaf yn cynnwys manylion ynglŷn â'r gwaith y mae angen i'r Cyngor ei wneud yn y dyfodol.

Unwaith eto, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi sicrhau bod ein Bwrdeistref Sirol yn lle mwy cyfartal i fyw a gweithio ynddo, ac i fanteisio ar wasanaethau. Serch hynny, rydyn ni'n cydnabod bod meysydd i'w gwella, ac y bydd hynny'n wir o hyd. Bydd cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol yma nid yn unig yn helpu'r Cyngor i fodloni ei rwymedigaethau o dan Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru, ond fe fydd hefyd yn eich helpu chi, a chithau'n drigolion y sir, i nodi'r meysydd yma ac i fonitro'u cynnydd.

**Y Cynghorydd Maureen Webber**

**Dirprwy Arweinydd / Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor**

## 2. Pwy ydyn ni

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ymestyn ar draws ardal ddaearyddol fawr ac mae ganddo boblogaeth o dros 234,000 o bobl. Cyngor Rhondda Cynon Taf yw cyflogwr pennaf yr ardal leol a'r trydydd awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru. Mae 80% o'i weithwyr hefyd yn byw yn o fewn ffiniau'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn ymrwmo i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac rydyn ni'n gweithio i sicrhau bod hyn yn cael eu mynegi yn narpariaeth ein gwasanaethau ac ein harferion cyflogaeth.

Dyma'r blaenoriaethau sydd wedi eu hamlinellu yn y [Cynllun Corfforaethol](#):

- **Economi** – Adeiladu economi gref
- **Pobl** – Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb
- **Lle** – Creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw.

Mae'r Cynllun yn rhoi'r trigolion wrth galon yr hyn rydyn ni'n ei wneud.

Mae'r Cyngor yn cael ei lywodraethu gan 75 o aelodau etholedig ac mae'n gweithredu system Cabinet. Mae gan y Cyngor Uwch Garfan Rheoli sy'n cael ei harwain gan y Prif Weithredwr, ac mae Uwch Gyfarwyddwyr yn mynychu ei chyfarfodydd. Mae dros 10,000 o weithwyr yn cael eu cyflogi mewn amryw o feysydd gwasanaeth a swyddi yn rhan o'r cyfadrannau canlynol:

- Cyfadran y Prif Weithredwr
- Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
- Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng-flaen
- Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes

## 3. Adrodd am Gydraddoldeb

Prif ddiben yr Adroddiad Blynyddol hwn yw cyflawni gwahanol ddyletswyddau a rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor er mwyn cofnodi ei gynnydd o ran cyflawni Dyletswyddau Cydraddoldeb Cyffredinol a Phenodol.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn mynnu bod pob un o'r awdurdodau cyhoeddus sy'n cael eu trin dan ddyletswyddau penodol Cymru, yn cyhoeddi adroddiad cydraddoldeb blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am y cyfnod 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Mawrth 2017.

**Mae'r rheoliadau yn mynnu'r canlynol:**

Rhaid bod adroddiad 2016/17 yn nodi:

- Camau y mae'r awdurdod wedi'u cymryd er mwyn nodi a chasglu'r wybodaeth berthnasol
- Sut mae'r awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth yma wrth gwrdd â 3 nod y ddyletswydd gyffredinol
- Unrhyw resymau dros beidio â chasglu'r wybodaeth berthnasol
- Datganiad ar ba mor effeithiol yw trefniadau'r awdurdod ar gyfer nodi a chasglu'r wybodaeth berthnasol
- Gwybodaeth benodol ynglŷn â chyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a chyflog.
- Cynnydd o ran cyflawni pob un o'i hamcanion cydraddoldeb yr awdurdod
- Datganiad o ba mor effeithiol yw camau gweithredu'r awdurdod tuag at gyflawni pob un o'u hamcanion cydraddoldeb.

#### **4. Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol**

Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd gyffredinol newydd ar y Cyngor (a sefydliadau'r sector cyhoeddus) wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau fel eu bod nhw'n rhoi sylw dyledus i'r canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd o dan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol a phobl sydd ddim yn eu rhannu (disgrifiad o'r nodweddion gwarchoddedig i'w gweld isod).
- Hybu perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a phobl sydd ddim yn eu rhannu.

#### **Nodweddion Gwarchoddedig**

Dyma'r term sy'n cael ei ddefnyddio yn y Ddeddf Cydraddoldeb i nodi'r gwahanol bethau sy'n gallu effeithio ar sut y caiff pobl eu trin, a gall olygu y bydd pobl yn dioddef gwahaniaethu. Diben y gyfraith yw diogelu'r nodweddion gwarchoddedig canlynol:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Beichiogrwydd a Mamolaeth

- Hil
- Crefydd neu Gredo
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae hefyd angen rhoi sylw dyledus ar gael gwared ar wahaniaethu mewn perthynas â phriodasau a phartneriaethau sifil.

Wrth feddwl am sut i hybu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu'r nodweddion gwarchoddedig perthnasol a rhai sydd ddim yn eu rhannu, rhaid i'r Cyngor hefyd feddwl am yr angen i:

- Cael gwared ag anfanteision, neu'u lleihau, sy'n wynebu pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno
- Diwallu anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion y bobl hynny dydyn nhw ddim yn eu rhannu
- Annog pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol i fod yn rhan o fywyd cyhoeddus neu unrhyw weithgaredd arall lle mae niferoedd y bobl o'r fath sy'n cymryd rhan yn anghymesur o isel.

Rhaid i'r Cyngor hefyd feddwl yn arbennig am sut y bydd e'n mynd i'r afael â rhagfarn ac yn hyrwyddo dealltwriaeth. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r hyn mae'r Cyngor wedi'i wneud i fodloni gofynion y Ddyletswydd Gyffredinol.

## **5. Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol**

Caiff gwybodaeth berthnasol ei hystyried i ddangos sut mae'r Cyngor wedi cyflawni'r Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol. Gall gwybodaeth gynnwys data o ffynonellau lleol ac/neu fewnol megis arolygon i gwsmeriaid, cylchoedd trafod cymunedol neu Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yn ogystal â data o ffynonellau cenedlaethol ac/neu allanol megis gwybodaeth cyfrifiad, adroddiadau ymchwil ac ystadegau ynghylch troseddau casineb.

### **Nodi a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol**

Wrth ystyried pa wybodaeth a ddylai gael ei chynnwys yn yr adroddiad, edrychodd y Cyngor ar yr wybodaeth a gafodd ei hystyried yn ystod cyfnod datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Galluogodd hyn i'r Cyngor fyfyrto a monitro p'un ai fod yr wybodaeth dal yn briodol wrth ei gynorthwyo i ddarparu Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol.

Wrth adolygu'r amcanion cydraddoldeb, edrychwyd ar ddeilliannau monitro chwarterol a materion a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg o adroddiadau cydraddoldeb blynyddol blaenorol i nodi a oedd yr amcanion yn dal yn berthnasol.

Am fanylion llawn, ewch i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar wefan y Cyngor:

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/EqualityandDiversity/StrategicEqualityPlan.aspx>

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i nodi yn dal i fod yn berthnasol i ddarpariaeth y Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol. Mae dogfennau mewnol yn nodi'r wybodaeth ystadegol sy'n gallu cael ei defnyddio er mwyn penderfynu ar gamau gweithredu neu at ddibenion cymharu er mwyn nodi gwelliannau neu feysydd ar gyfer gwella. Mae strategaethau mewnol a'u cynlluniau gweithredu yn rhoi gwybodaeth ar sut mae'r Cyngor yn darparu ei flaenoriaethau. Mae gwybodaeth allanol, gan gynnwys gwybodaeth sydd â chyd-destun cenedlaethol, yn darparu data i'r Cyngor sy'n gallu cynorthwyo wrth ddatblygu polisiau a dulliau gweithredu priodol a pherthnasol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod nad dim ond y Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n gallu dod o hyd i'r wybodaeth berthnasol. Er ei fod yn ddefnyddiol iawn, bydd gan feysydd gwasanaeth yr wybodaeth briodol hefyd a allai cynorthwyo'r Cyngor i nodi sut maen nhw'n cyflawni'r Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol. I gasglu'r wybodaeth hon, cynhaliwyd arolwg i gael gwybodaeth berthnasol o feysydd gwasanaeth.

Mae gan y Cyngor Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac mae ei ganlyniadau yn cyfrannu at yr wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn.

Yn ogystal â hyn, mae data monitro cyflogaeth o system Adnoddau Dynol y Cyngor (sef Vision ac e-recruitment) wedi cael ei gynnwys yn rhan o'r wybodaeth berthnasol. Noder bod gwybodaeth monitro cyflogaeth yn cynnwys athrawon a phawb sy'n gweithio mewn ysgol.

### **Defnydd o Wybodaeth**

Wrth ystyried pa wybodaeth y dylid ei defnyddio, roedd yn bwysig nodi arferion da ar draws y meysydd gwasanaeth er mwyn dangos bod ymrwymiad i gydraddoldeb yn y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y bydd meysydd i'w gwella a bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn adran 'gwaith pellach' yr adroddiad hwn.

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn cynnwys:

- Cynllun Corfforaethol y Cyngor (2016–2020)
- Gwerthusiad Hunanwasanaeth o'r Meysydd Gwasanaeth (2016/2017)

- Darpariaeth Gwasanaethau/Prosiectau (2016/2017)
- Arferion cyflogi
- Rhaglen Ymgynghori ac Ymgysylltu
- AEGau (2016/2017)
- Gwybodaeth monitro cyflogaeth (2016/2017)
- Monitro a Darparu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2016/2017).

## **Gwybodaeth ar Gydraddoldeb gan Feysydd Gwasanaeth**

Roedd enghreifftiau o arfer da i'w gweld mewn nifer o feysydd gwasanaeth, a gynorthwyodd y Cyngor i fodloni dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae'r wybodaeth ganlynol yn cynnwys 'cipolwg' o'r gwaith sy'n cael ei gyflawni drwy'r Cyngor.

Yn rhan o'r **Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant**, mae perthnasau â rhieni lle mae'r Saesneg fel iaith ychwanegol iddyn nhw wedi gwella diolch i'r defnydd o gyfieithwyr proffesiynol. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl nad yw dibynnu ar blentyn neu aelod o'r teulu i gyfieithu'n anffurfiol yn briodol. Mae'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles wedi chwarae rhan fwy pan mae teuluoedd yn symud i'r ardal a heb gofrestru'u plentyn/plant yn yr ysgol. Mae staff y gwasanaeth yn esbonio'r disgwyliadau o ran mynychu'r ysgol a'r cymorth sydd ar gael, e.e. cludiant ysgol a grantiau gwisg ysgol. Ein bwriad yw paratoi pecynnau gwybodaeth i deuluoedd yn eu hiaith gyntaf. Rydyn ni newydd ddechrau dyrannu elfen o gyllid i gefnogi dysgwyr mae Saesneg fel iaith ychwanegol iddyn nhw mewn ysgolion wedi'u targedu.

O fis Ebrill 2016, mae perthynas gweithio ar y cyd wedi datblygu rhwng y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles a'r Gwasanaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) i gynig ac adolygu darpariaeth ar gyfer disgyblion Teithwyr a Roma. Mae grŵp wrthi'n cael ei ddatblygu yn rhan o Gonsortium Canolbarth y De a fydd yn cyd-weithio a rhannu arfer da. Cafodd polisi ei ddatblygu yn ddiweddar.

Bydd Uwch Seicolegydd Lles newydd yn cynnal mentrau lles mewn ysgolion.

Rydyn ni wedi gweld cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau gaiff eu cyflwyno i'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles mewn perthynas â materion lles. Dyw'r materion yma ddim yn ddigon dwys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol gael gwybod amdany'n nhw, ond maen nhw'n broblem. Mae'n fwy tebygol y bydd atgyfeiriadau yn gofyn am gymorth dwys, parhaus yn ymwneud â materion mwy eang, yn hytrach na chanolbwyntio ar faterion mynychu'r ysgol yn unig. Yn ddiweddar, mae cynnydd wedi bod yn nifer yr atgyfeiriadau yn ymwneud ag anghenion cymdeithasol,



emosiynol a lles sy'n gysylltiedig â phryderon iechyd meddwl. Mae hyn yn ddatblygiad cadarnhaol o ran bod yn eiriolwyr i deuluoedd a chynnig cymorth iddyn nhw, ond mae hyn hefyd yn peri pryder o ystyried yr adnoddau sydd ar gael.

Mae gwaith ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles a'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenticid yn galluogi amrediad o gymorth i gael ei gynnig i bobl ifainc, cyn eu hatgyfeirio i wasanaethau statudol.

Mae staff rheng-flaen ac arweinwyr carfan y gwasanaeth yn derbyn hyfforddiant ar faterion ymwybyddiaeth o Bobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol. Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio'n bennaf ar hunaniaeth o ran rhyw a rhoi arfer da ar waith. Mae sawl uwch reolwr yn aelod o Weithgor Cydraddoldebau, yn rhan o Fyngai Addysg Stonewall, sy'n monitro cynnydd y gwaith.

Mae Cynllun Peilot Cydraddoldeb wedi'i gyflwyno mewn 3 ysgol uwchradd. Yn ôl pob aelod o staff, mae wedi cael effaith gadarnhaol. Mae'r cynllun wedi ennyn diddordeb y disgyblion, ac mae cylchoedd cymorth wedi'u sefydlu sy'n rhoi'r pŵer a'r gallu yn nwylo'r disgyblion i fynd i'r afael ag achosion o anghydraddoldeb yn eu hysgol. Mae pob ysgol wedi nodi bod gyda hi ddiddordeb mewn sefydlu Grŵp Ffocws ac adolygu cryfderau a gwendidau'r rhaglen.

Mae holl adeiladau Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yn cydymffurfio â deddfwriaeth anabledau, felly, mae llai o blant ag anabledau angen cael eu haddysgu y tu allan i'w cymunedau. Ystyr hyn yw bod ysgolion yn fwy hygyrch i rieni ag anabledau, ac mae modd i grwpiau yn y gymuned ddefnyddio cyfleusterau ysgolion, sy'n llwyr hygyrch.

Mae pobl ifainc yn dioddef o fwy a mwy o broblemau iechyd meddwl. Rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid, yn rhan o Gynllun Gweithredu Cwm Taf ar Iechyd Meddwl a Lles, i wella gwasanaethau.

Rydyn ni'n lleihau nifer y bobl ifainc sy ddim mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant yn y Fwrdeistref Sirol mewn modd effeithiol drwy fodel ymateb graddedig yn seiliedig ar ddata proffil bregusrwydd. Mae Swyddogion y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenticid yn cynnig ymateb gan weithiwr arweiniol i bobl ifainc sy wedi'u nodi gan sefydliad Gyrfa Cymru yn rhan o Haen 1 (yn anhysbys i wasanaethau). Yn 2016-2017, nododd y Gwasanaeth bob un o'r rheiny sy ddim mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (190 person ifanc), a rhoddodd gefnogaeth i 26% ohonyn nhw. Gweithwyr Cymorth Pontio Ôl-16 yw'r blaen weithwyr ar gyfer pobl ifainc sy ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Yn 2016-2017, cysylltodd y garfan â 993 o'r rheiny a gafodd eu hatgyfeirio, gan gefnogi 53% (538) ohonyn nhw i gamu i fyd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae'r ddwy swyddogaeth wedi'u nodi yn Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenticid Llywodraeth Cymru. Mae staff sawl asiantaeth partner hefyd yn cefnogi'r ddwy swyddogaeth, e.e. Cymunedau yn Gyntaf.

Yn rhan o **Wasanaeth Addysg i Oedolion**, mae'r Grant Dysgu yn y Gymuned a Threfniadau Masnachfaint yn gofyn i'r gwasanaeth dargedu grwpiau dan anfantais penodol wrth ddyrannu'i adnoddau. Yn gyffredinol, mae gan y grŵp o ddysgwyr yma lai o gymwysterau, maen nhw'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar, a dydyn nhw ddim wedi derbyn addysg ers cryn amser. Yn aml, mae'r rhwystrau sy'n wynebu'r dysgwyr yma yn gymhleth, a dydy dulliau dysgu traddodiadol ddim wedi llwyddo i ennyn eu diddordeb. O ganlyniad i hyn, mae'r gwasanaeth wedi datblygu ffyrdd newydd o weithio er mwyn hwyluso datblygiad y bobl ifainc yma, a'u cefnogi i fodloni deilliant llwyddiannus. Enghraifft o hyn yw cyrsiau ymuno a gadael unrhyw adeg. Caiff amseroedd a lleoliadau cyrsiau eu hamrywio er mwyn diwallu anghenion dysgwyr, a rhoi'r cyfle iddyn nhw barhau i ddysgu.

Caiff pob cais gan unigolion a grwpiau eu hystyried. Mae systemau atgyfeirio wedi'u datblygu dros y 4 blynedd diwethaf i sicrhau y caiff y bobl ifainc hynny, does dim modd i'r Gwasanaeth Addysg i Oedolion fodloni eu hanghenion, eu hatgyfeirio i ddarparwr arall.

Caiff darpariaeth Llwybrau at Gyflogaeth a Sgiliau Gwaith ei chynnig gan sawl partner hyfforddi o amrywiaeth o sectorau. Mae cymorth mentora hefyd ar gael drwy fentrau Cymunedau am Waith, Cymunedau yn Gyntaf ac eraill fel sy'n briodol.

Caiff darpariaeth ei chynnig o hyd i ddysgwyr ag anableddau dysgu dwys a chymedrol. Cafodd 10 cwrs Sgiliau Byw'n Annibynnol eu cynnig yn 2016/17. Manteisiodd 124 dysgwr arnyn nhw. Tiwtor y cyrsiau yw unigolyn sydd â phrofiad penodol o ddysgu unigolion ag amrediad o anableddau. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys unedau ar Hanes Cymru, Sgiliau Hanfodol a Byw'n Iach. Caiff cyflawniadau'r bobl ifainc eu dathlu mewn seremoni wobrwyo flynyddol.

Mae'r gwasanaeth wedi hwyluso gweithgareddau i bobl sy'n dioddef o afiechyd Alzheimer. Cyniga'r gwasanaeth ddosbarth wythnosol sy'n cefnogi dysgwyr a'u partneriaid. Hwn yw maes mae modd ei ddatblygu ymhellach. Byddai grwpiau eraill yn buddio o'r math yma o berthynas.

Mae'r Cyngor yn parhau gyda'i ymrwymiad at **Gyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog**. Mae'r Cyfamod Cymunedol yn ddatganiad gwirfoddol o gydgefnogaeth rhwng cymuned sifil Rhondda Cynon Taf a'r Gymuned Lluoedd Arfog Lleol. Mae'r addewid yn cydnabod y parch deuol rhwng y Cyngor, ei asiantaethau partner, ei gymunedau a'n Personél Lluoedd Arfog (gwasanaethu ac ymddeol) a'u teuluoedd.

I gael rhagor o wybodaeth, dilynwch y ddolen isod:

<http://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/ArmedForcesCovenant/Communitycovenantgeneralinformation.aspx>

Mae cynlluniau ar y gweill i benodi Swyddog Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog yn 2017/18 i ddatblygu ein hymrwymiad i hyn ymhellach.

Mae'r **Gwasanaeth Celf** wedi paratoi ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n taflu goleuni ar ei ymrwymiad i gynnis rhaglen gynhwysol o achlysuron, yn benodol yn ymwneud â'r theatrau.

Mae gwybodaeth am gynllun [HYNT](#) i'w chael ar wefan [rct-theatres.co.uk](http://rct-theatres.co.uk) ac yn llyfryn y gwasanaeth. Cynllun cenedlaethol yw hwn sy'n galluogi'r rheiny sy'n gymwys i gael gafael ar docynnau am ddim ar gyfer eu cynhalwyr er mwyn eu helpu i ddod i achlysuron byw neu i fynd i'r sinema.

Mae Carfan Cydraddoldeb ac Amrywioldeb y Cyngor yn cefnogi'r gwasanaeth, o ran sicrhau bod theatrau yn hygyrch a gwneud addasiadau a fydd yn gwella mynediad i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys gwella mynediad ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn, teuluoedd ifainc, pobl hŷn, a chreu cyfleoedd i greu incwm drwy amrywio'r rhaglen.

Cyfrannodd Swyddogion y Diwydiannau Celf a Chreadigol i Ddiwrnod Hyfforddiant Cydraddoldeb yn rhan o brosiect Fourteen (prosiect etifeddiaeth Gemau Olympaidd 2012) yn ardal Canol Cwm Rhondda, er mwyn tynnu sylw at ganfyddiad o anabledau.

Yn ystod 2017, gweithiodd y gwasanaeth gyda Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Cyngor i gyflwyno Gŵyl LGBT+ yn Theatr y Parc a'r Dâr yn ystod Mis Hanes LGBT. Cafodd hyn ei gefnogi gan Rwydwaith LGBT+ y Cyngor (Perthyn) a Rhwydwaith Cynghreiriaid Staff.

Rydyn ni wedi sefydlu Grŵp Cynghori Pobl Hŷn, sy'n gweithredu o Theatr y Parc a'r Dâr. Mae'n llywio gwaith datblygu rhaglen ar gyfer pobl hŷn, gan gynnwys cymryd rhan yng Ngŵyl y Gwanwyn. Eleni, roedd pob tocyn ar gyfer Lee Gilbert a'i Big Band wedi'i werthu, ac roedd rhaglen o weithgareddau oriau dydd wedi'i pharatoi i annog creadigrwydd. Mae Theatr y Colisëwm wedi manteisio ar y gwersi sy wedi'u dysgu. Yno, caiff cyfres o Ddangosiadau Arian eu datblygu, law yn llaw â'i chynnig Cyngerdd a Chacen a dydd-berfformiadau.

Rydyn ni'n parhau â'n cynnis cyfeillgar i deuluoedd. Rydyn ni o hyd yn cynnis dangosiadau ffilm hamddenol yn y ddwy theatr, gan gynnwys Clwb i Blant bob mis yn Theatr y Colisëwm.

Caiff hyfforddiant a chymorth mentora, yn ogystal â phrosiectau â thargedau, eu darparu ar gyfer pobl sy'n rhan o'r grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig, a hynny gan swyddogion gwybodus yn ein theatrau a charfan y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol.

Mae'r gwasanaeth yn creu cyfres o astudiaethau achos sy'n cyfleu effaith gymdeithasol y celfyddydau, yn unol â 7 Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd hyn yn ein helpu ni i werthuso ein darpariaeth a chael adborth gan bartneriaid a chyfranogwyr.

Mae'r **Gwasanaethau Profedigaethau** wedi cael gwared ar yr hen strwythur 'ffioedd y tu hwnt i'r ardal'. O dan hyn, roedd gofyn i drigolion doedd ddim yn byw yn Rhondda Cynon Taf dalu am rai gwasanaethau gan y Gwasanaethau Profedigaethau. Bellach, does dim gwahaniaeth yn y strwythur prisio ar gyfer y rheiny sy'n drigolion a'r rheiny sydd ddim yn drigolion. Mae hyn yn darparu gwasanaeth hollgynhwysol, cyfartal a theg i holl ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Cafodd Gardd Fabanod ei chreu yn Amlogfa Llwydcoed, sy'n darparu cofebion er cof am fabanod yn unig. Gweithion ni gyda Grŵp SANDS a staff bydwreigiaeth ar yr ardal yma.

Rydyn ni wrthi'n paratoi i newid y strwythur prisio ar gyfer amlogi/claddu plant yn unol â Memorandwm Dealltwriaeth Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn golygu bod modd darparu gwasanaethau am ddim ar gyfer pobl ifainc hyd at 18 oed yn hytrach na hyd at 16 oed.

Mae'r rhaglenni hyfforddiant **Camu i'r Cyfeiriad Cywir a GofaliWaith** yn parhau i fynd o nerth i nerth. Rydyn ni wedi gweld canlyniadau llwyddiannus iawn ers mis Ebrill 2015, gan gynnwys:

- GofaliWaith - cymerodd 39 o bobl ifainc ran yn y rhaglen GofaliWaith. Aeth 33% (13) ymlaen i ennill swyddi, 51% (20) ymlaen i gofrestru ar gyrsiau Addysg Bellach neu hyfforddiant a 15% (6) ymlaen i wirfoddoli ag asiantaethau amrywiol.
- Rhaglen hyfforddiant "Camu i'r Cyfeiriad Cywir" - cofrestrodd 8 o bobl ifainc ar y rhaglen, llwyddodd 5 ohonyn nhw i'w chwblhau hi. Llwyddodd 4 ohonyn nhw i ennill swydd a chafodd 1 ohonyn nhw ei dderbyn ar gwrs ym Mhrifysgol De Cymru.

Mae **Gwasanaethau i Blant** yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i bawb sy'n bodloni'r holl drothwyon perthnasol ni waeth beth fo'u hethnigrwydd neu ddiwylliant. Maen nhw'n darparu gwasanaeth 24/7 ar bob diwrnod o'r flwyddyn. Mae'r Garfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau yn darparu ymateb y tu hwnt i oriau'r swyddfa.

Cyn unrhyw gyfarfod â defnyddwyr gwasanaethau, bydd y garfan yn nodi eu dull cyfathrebu dewisol ac yn ei ddefnyddio ar gyfer y cyfarfod ac yn y dyfodol.

Mae'r gwasanaeth yn manteisio ar gyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter i gysylltu â thrigolion yn yr ardal.

Caiff Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb eu cyflawni cyn penderfynu ar unrhyw ddatblygiadau strategol.

Dim ond un pwynt mynediad sydd i'r gwasanaeth (yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth). Mae hyn yn galluogi i nifer o asiantaethau ymateb ar y cyd ac yn sicrhau bod y dull gweithredu'n gyson.

Caiff unrhyw broblemau sy'n codi eu cyfeirio at Garfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Cyngor. Roedd un mater a gafodd ei adolygu'n ddiweddar yn ymwneud â darparu Prydau Ysgol am Ddim ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal gan Rieni Maeth neu gynhalwyr sy'n berthnasau.

Cafodd Amcanion **Cydlyniant Cymunedol** eu pennu ar gyfer 2014. Roedd y rhain yn gyfuniad o nodweddion cyffredin ar draws cynlluniau gweithredu cyfredol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Gweler yr amcanion isod:

Amcan 1 – Adeiladu rhwydwaith gadarn o weithgorau i reoli a darparu Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cwm Taf.

Amcan 2 – Cydlyniant Cymunedol Prif Ffrwd drwy gysylltu a mewnosod yn y Cynlluniau Integredig Sengl a strategaethau allweddol lleol eraill ar draws Cwm Taf.

Amcan 3 – Rhoi gwybodaeth ynghylch pynciau sy'n gysylltiedig â chydlyniant cymunedol ar draws Cwm Taf.

Amcan 4 – Gwella cyfleoedd i adrodd am densiynau yn y gymuned, sy'n cynnwys profiadau o drosedd casineb a pha mor ymatebol ydy unigolion a grwpiau i radicaliaeth.

Cafodd **Grŵp Cydlynu Cymuned** Cwm Taf ei sefydlu yn lle'r hen Gylch Trafod Amrywiaeth Amlasiantaeth. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau statudol, gwirfoddol a chymunedol. Mae nifer o wasanaethau'r Cyngor yn cael eu cynrychioli yn ystod cyfarfodydd, gan gynnwys y Garfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, y Bartneriaeth Cymunedau Diogel a'r Gwasanaethau Mynychu'r Ysgol a Lles ac Addysg.

Mae'r Grŵp yn cwrdd bob chwarter. Yma, mae ffigurau archwiliadau ar hap a throeddau casineb yn cael eu cofnodi a'u trafod. Mae atebion amlasiantaeth yn cael eu trafod, ac mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chyflwyno ynghylch sut mae pob plaid yn cyfrannu at Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Caiff y cyhoedd eu gwahodd i'r cyfarfodydd yma er mwyn rhoi eu barn ar eu profiadau o ran aflonyddu a gwahaniaethu yn y gymuned.

Mae ein **Gwasanaeth Prynu a Chomisiynu i'r Gymuned ac i Blant** yn sicrhau bod gan yr holl gontractau fanyleb gysylltiedig sy'n nodi'r trefniadau o ran cydraddoldeb; caiff hyn ei atgyfnerthu drwy'r prosesau monitro contractau, yn yr un modd â'r trefniadau recriwtio darparwyr a hyfforddiant.

Cafodd adolygiad trechu tlodi ei gynnal o fewn y **Gwasanaeth Cymunedau a Ffyniant**. Nododd yr adolygiad yma rai anghysondebau mewn rhaglenni trechu tlodi. O ganlyniad i hyn, rydyn ni wedi gwneud cynnydd o ran integreiddio'r ffordd y caiff rhaglenni eu darparu a'u comisiynu er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn hollgynhwysol, yn gyfartal ac yn deg. Er enghraifft, mae'r gwaith o gomisiynu'r adran Addysg i Oedolion i ddarparu rhaglenni cyflogadwyedd ym mhob clwstwr wedi galluogi'r gwasanaeth i ailddosbarthu adnoddau craidd i feysydd targed y tu hwnt i'r Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Mae hyn yn golygu bod modd i oedolion ledled Rhondda Cynon Taf fanteisio ar y ddarpariaeth yma, ni waeth ble maen nhw'n byw. Mae'r dull gweithredu yma wedi llywio Grant Cyflogadwyedd newydd y Cyngor, a fydd yn cynnal y trefniadau yma yn y dyfodol.

Mae cynigion ar waith i gyflwyno dull gweithredu Carfan o amgylch y Teulu (TAF) (Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth). Bydd hwn yn gyfle i ddarparu cymorth prydlon, effeithiol, cyson a phwrpasol i deuluoedd ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae'r gofyniad yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr fod yn hollgynhwysol a galluogi plant a phobl ifainc i fanteisio ar ddarpariaeth yn y brif ffrwd lle bynnag y bo modd gwneud hynny. Bydd cyflwyno'r Fframwaith Cymorth Rhianta Integredig yn sicrhau bod modd i bob teulu a fyddai'n cael budd o'r rhaglenni hyn fanteisio arnyn nhw, ni waeth a ydyn nhw'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg ai peidio. Bydd cyflwyno'r Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol yn sicrhau bod modd i bobl plentyn a pherson ifanc fanteisio ar wasanaethau cymorth, ni waeth beth fo'u hanghenion ychwanegol neu anabledau.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae **Adran Eiddo'r Cyngor** wedi gwella a datblygu'r cyswllt gyda'u cydweithwyr ym maes Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae'r gwasanaeth wedi hwyluso a chynnal nifer o achlysuron yn y maes yma, megis achlysur codi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl 'Amser i Siarad', cyrsiau ymwybyddiaeth ofalgar, achlysuron hyrwyddo rhwydweithiau staff (Perthyn, Cynghreiriaid) ac ymarferion ymgynghori â staff.

Mae ein **Gwasanaeth Gofal i Gwsmeriaid** yn parhau i ddarparu gwasanaeth hollgynhwysol, ac mae pawb yn cael gwybod am y lleoliadau a'r amseroedd agor. Mae rhai o'n prosesau allweddol ni'n mynd ati'n uniongyrchol i hyrwyddo darpariaeth deg e.e. mae'r wefan yn helpu pobl sydd wedi colli'u golwg, mae Bathodynnau Glas yn helpu pobl sydd ag amrywiaeth o anabledau ac ati. Cafodd ein Canolfannau IBobUn eu dylunio gyda'r nod o fodloni safonau o ran hygyrchedd ac mae modd defnyddio dolenni clyw. Caiff ein gwefan ei hadolygu bob blwyddyn drwy ddull adolygu SOCITM. Mae'r prawf yma'n cynnwys profi hygyrchedd, a llwyddon ni i

sgorio 2 allan o 3 yn y prawf yma, sy'n uwch na'r cyfartaledd ledled Cymru. Mae SOCITM yn gymdeithas ar gyfer ymarferwyr TGCh yn y sector cyhoeddus. Yn ogystal â hynny, caiff y Ganolfan Hygyrchedd Ddigidol ei chomisiynu i adolygu ein gwefan newydd.

Rydyn ni'n cynnig Llinell Synhwyrdd yn ein Canolfan Alwadau, sy'n galluogi cwsmeriaid byddar neu'r rheiny sydd â nam ar eu clyw i ddefnyddio 'ffôn testun'.

Rydyn ni'n cofnodi gwybodaeth sensitif ar gyfer cleientiaid Lifeline. Mae hyn yn cynnwys eu hanes meddygol, eu dewis iaith, eu crefydd ac unrhyw ofynion arbennig eraill sy'n ein galluogi ni i ddarparu gwasanaeth yn ddidrafferth. Mae Lifeline yn cefnogi 88 o gwsmeriaid sydd mewn perygl o oddef Trais Domestig ac sy'n flaenoriaeth gan yr Heddlu.

Roedd pryderon ynglŷn â hygyrchedd i gadeiriau olwyn yn ein Canolfannau IBobUn, felly rydyn ni wedi dylunio ystafelloedd cyfweld newydd sydd wedi'u cynnwys ym mhob un o'n canolfannau. Bydd yr ystafelloedd yma'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid sy'n defnyddio cadeiriau olwyn yn well.

Cafodd y **Cylch Trafod Materion Anabledd** ei sefydlu o ganlyniad i adborth o'r Gynhadledd Anabledd Estyn Allan yn 2003. Mae'r Cylch Trafod yn monitro'r broses o gyflwyno cynllun gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn cyfrannu'n rheolaidd at ystod eang o ymgynghoriadau e.e. y broses gosod cyllideb ar gyfer y Cyngor a mentrau Llywodraeth Cymru.

Mae'r Garfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hefyd yn rhoi gwybod i aelodau o'r cylch am eitemau a all fod o ddiddordeb iddyn nhw. Mae hyn wedi arwain at aelodau yn cyfrannu at faterion lleol.

Mae **Grŵp ar gyfer Swyddogion Materion Anabledd** yn parhau i gwrdd. Mae'r gweithgor yn cynnwys swyddogion sydd un ai'n darparu gwasanaethau i bobl anabl yn uniongyrchol neu'n cyfrannu at sicrhau gwasanaethau sy'n fwy hygyrch, neu fod elfen o'u swydd yn cynnwys delio â materion anabledd. Mae'r grŵp yn cwrdd bob chwarter er mwyn rhannu gwybodaeth, nodi arferion gorau a hyrwyddo cyfathrebu mewnol.

Mae'r Meysydd Gwasanaeth **lechydd yr Amgylchedd, Safonau Masnachu a'r Gwasanaeth Diogelwch yn y Gymuned** yn parhau i flaenoriaethu'r gwaith o ymdrin â gwybodaeth, cwynion, archwiliadau rhagweithiol ac ymchwiliadau i ddeddfwriaeth a'r drosedd, yn hytrach na nodweddion personol y troseddwr, y sawl sy'n rhedeg y busnes neu'r cleient. Mae hyn yn sicrhau bod modd i bawb fanteisio ar y gwasanaeth mewn modd teg, ac yn diogelu'r holl ddefnyddwyr a sectorau'r gymuned mewn modd priodol.

Mae Swyddogion Trwyddedu wedi cymryd rhan yng nghyfarfodydd Cylch Trafod Anabledd y Cyngor. Cafodd ymarferion cydymffurfiaeth tacsis eu cynnal er mwyn sicrhau bod modd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn gael eu trin yn deg wrth wneud cais am dacsî. Cymerodd aelodau'r Cylch Trafod Materion Anabledd a rhwydwaith Anableddau Staff ran yn yr ymarferion yma. Chafodd hawliau neb eu tresmasu yn ystod yr ymarferion yma, sy'n ganlyniad cadarnhaol. Yn ogystal â hynny, y Cyngor yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gydymffurfio'n llawn â'r gofyniad cyfreithiol i gyhoeddi cofrestr o gerbydau sy'n addas i gadeiriau olwyn sydd â thrwydded gan y Cyngor.

Mae gwaith partneriaeth gydag Ardal Gwella Busnes Pontypridd yn golygu bod modd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn gael gafael ar dacsî sy'n addas i gadair olwyn yn haws yng nghanol tref Pontypridd.

Bydd ein sgysiau â chlwstwr Meddygon Teulu Cwm Rhondda yn golygu bod modd i ragor o bobl o'r gymuned gymryd rhan yn y Rhaglen Codi Ymwybyddiaeth o Gwympo. Bydd hyn hefyd yn cynnwys trefn atgyfeirio gan weithwyr proffesiynol ym maes iechyd, gyda'r nod o sicrhau darpariaeth hollgynhwysol, gyfartal a theg ar gyfer holl drigolion hŷn y Fwrdeistref.

Mae'r rhan yma'n gweinyddu'r Grant Pobl Hŷn. Caiff y ffurflenni cais a'r canllawiau eu hanfon at grwpiau a sefydliadau i bobl hŷn yn Rhondda Cynon Taf er mwyn eu gwahodd i wneud cais am gyllid i'w helpu nhw i roi themâu Heneiddio'n Dda yng Nghymru ar waith. Wrth weinyddu'r grant eleni, daethon ni'n effro i'r grwpiau eraill yn y gymuned doedd ddim wedi'u cynnwys yn ein cronfa ddata. O ganlyniad i hyn, cafodd y gronfa ddata ei diweddarau a bydd pob grŵp rydyn ni'n effro iddyn nhw yn yr ardal yn cael eu gwahodd i wneud cais mewn unrhyw rowndiau pennu cyllid. Nod hyn yw sicrhau bod y broses yn hollgynhwysol, yn gyfartal ac yn darparu gwasanaeth teg i bob unigolyn hŷn.

Eleni, llwyddodd y Garfan Iechyd a Diogelwch Bwyd i wneud cais am arian grant gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Bydd hyn yn ein galluogi ni i gyfieithu ein pecynnau cymorth busnes i dair iaith wahanol, sef Tsieinëeg, Bengali a Thyrcceg.

Caiff gwasanaethau cyfieithu eu defnyddio'n helaeth ym mhob rhan o'r gwasanaeth er mwyn helpu i sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer pob grŵp ethnig ac yn trin tystion a phobl dan amheuaeth yn deg wrth ymchwilio i droseddau.

Mae **Gwasanaethau Cerbydau'r Cyngor** wedi bod yn gweithio ar ateb y galw cynyddol ac wedi addasu cerbydau llyfrgell symudol fel bod modd i ni gael mynediad at ragor o strydoedd. (Mae rhai problemau ar hyn o bryd o ran mesurau arafu traffig sy'n amharu ar ein cerbydau).



Mae gan y Cyngor nifer o atyniadau i ymwelwyr ac mae ein **Gwasanaeth Treftadaeth** yn sicrhau bod modd i bob aelod o'r cyhoedd eu mwynhau. Mae gwybodaeth ddwyieithog ar gael yn Lido Ponty, ac mae'r holl arwyddion yn cynnwys testun yn iaith Braille.

Wrth weithio gyda'r Gymdeithas Dementia, cafodd staff Lido Ponty, Parc Gwledig Cwm Dâr a Thaith Pyllau Glo Cymru hyfforddiant arbenigol o ran deall anghenion defnyddwyr sydd â dementia. Yn unol â dyheadau'r Gymdeithas Dementia, mae'r cyfleusterau bellach yn "gyfeillgar i dementia".

Caiff holl Achubwyr Bywyd y Lido hyfforddiant cychwynnol arbenigol ar ddefnyddio'r Pod yn y Pwll. Mae'r offer arbenigol yma'n helpu defnyddwyr anabl i fynd i mewn i'r pwll ac yn diogelu urddas y cwsmeriaid yn well na theclynnau codi pobl traddodiadol.

Mae Lido Ponty wedi gweithio gyda nifer o elusennau er mwyn cynnal achlysuron codi arian ac mae'n rhoi cyngor a chymorth wrth gynllunio achlysuron er mwyn sicrhau bod modd diwallu anghenion penodol unrhyw ddefnyddwyr gwasanaeth.

Ers 6 mlynedd, rydyn ni wedi rhoi rhaglen wella **Priffyrdd** er mwyn gwneud bysiau'n fwy hygyrch. Rydyn ni wedi gwario tua £250k y flwyddyn ar y cynllun yma. Yn 2008/09, dim ond 3.23% o'r cyrbau mewn safleoedd bysiau oedd yn hygyrch, ac roedden ni yn y 21<sup>ain</sup> safle o ran awdurdodau lleol yng Nghymru mewn perthynas â hynny. Mae'r ffigurau ar gyfer 2016/17 yn nodi bod gan 34.4% o'r 1,584 o'r gorsafoedd bysiau yn y Fwrdeistref bwyntiau mynediad sydd wedi'u codi er mwyn gwella hygyrchedd. Rydyn ni bellach yn y 9<sup>fed</sup> safle o ran awdurdodau lleol yng Nghymru mewn perthynas â hyn.

Mae'r Cyngor yn darparu 247 o fannau parcio penodol i ddefnyddwyr anabl yn ei feysydd parcio â thâl. Mae hyn yn gyfystyr â mwy na 7% o'r holl fannau sydd ar gael ac yn uwch na'r nifer sydd wedi'i argymhell yn y canllawiau. Does dim rhaid i ddefnyddwyr anabl dalu am ddefnyddio'r manau penodol yma.

Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn nodi **Diwrnod Cofio'r Holocost**. Ym mis Ionawr 2017, cafodd achlysur cyhoeddus ei gynnal yn Theatr y Colisëwm. Cafodd ei gynnal mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru a sefydliad Cymunedau yn Gyntaf. Daeth amrywiaeth o bobl i'r achlysur. Roedd hwn yn achlysur cyfoes a oedd yn gysylltiedig â throseddau casineb rydyn ni'n eu gweld heddiw. Yma, codwyd ymwybyddiaeth am sut i adrodd am Droseddau Casineb yn Rhondda Cynon Taf. Cyfrannodd disgyblion o sawl ysgol i'r achlysur. Daeth aelodau o gymuned Iddewig Caerdydd i'r achlysur. Cefnogodd Gwasanaeth y Llyfrgelloedd Ddiwrnod Cofio'r Holocost drwy drefnu arddangosfeydd llyfrau yn ymwneud â'r Holocost.

Mae ein carfan **Dai** wedi cynnal Asesiad o'r Farchnad Dai Leol sy'n nodi'r anghenion o ran tai mewn gwahanol ardaloedd. Mae'r arolwg yn cynnwys cwestiynau am

oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hil ac anabledd. Wedyn, caiff gwasanaethau eu teilwra o amgylch ardaloedd daearyddol o angen neu anghenion grwpiau penodol.

Caiff dyraniadau tai drwy'r Gofrestr Tai Cyffredin eu monitro er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cynrychioli'r aelwydydd hynny sy'n aros am dai ar y gofrestr yn ogystal â phoblogaeth y fwrdeistref sirol. Hyd yma, mae'r dyraniadau wedi cynrychioli'r ddau beth yma. Pan mae pobl yn holi am dai, rydyn ni'n gofyn cwestiynau ynglŷn â'u hoedran, eu rhyw, eu hil a'u hanabledd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn 2017, dechreuodd y Gwasanaethau Tai weithio gyda sefydliad Cymunedau yn Gyntaf fel bod modd i'r rheiny sydd am gyrchu gwefan Ceisio Cartref ([www.homefinderrct.org.uk](http://www.homefinderrct.org.uk) <<http://www.homefinderrct.org.uk>>) wneud hynny drwy seisnau Dydd Gwener Digidol.

Yn ogystal â hynny, rydyn ni'n ymdrechu i ddarparu o leiaf un byngalo sydd wedi'i addasu ar bob safle tai fforddiadwy newydd er mwyn cynyddu nifer y math yma o dai sydd ar gael.

Caiff pobl sy'n wynebu cam-drin domestig gymorth gan y Gwasanaethau Tai er mwyn sicrhau bod modd iddyn nhw gael mynediad at dai diogel. Mae amrywiaeth o ddewisiadau ar gael, gan gynnwys llety mewn lloches, cael blaenoriaeth yn rhan o Gynllun Dyrannu Tai'r Cyngor er mwyn helpu pobl i symud ymlaen i dai addas a diogel yn effeithiol neu gymorth drwy'r cynllun caledu.

Yn 2017, cafodd holl staff y Gwasanaeth Tai hyfforddiant ym maes diogelu a chydraddoldeb, a oedd yn flaenoriaeth yng nghynllun datblygu busnes yr adran.

Mae'r Gwasanaeth **Adnoddau Dynol** yn ymdrechu i hyrwyddo'r ddarpariaeth, gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn hollgynhwysol, yn gyfartal ac yn deg. Mae pob aelod o'r garfan wedi cwblhau amryw o fodiwlau e-ddysgu sy'n mynd i'r afael â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Maen nhw'n cynghori meysydd gwasanaeth ar bob agwedd ar gydraddoldeb ac addasiadau o fewn rheswm.

Mae gan yr **Adran TGCh** Strategaeth Ddigidol sy'n helpu'r agenda hollgynhwysol, ac mae'r adran yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi a chynnal mentrau 'Dydd Gwener Digidol' ym mhob un o'n llyfrgelloedd. Nod yr achlysuron yma yw rhoi cymorth ac arweiniad i unigolion er mwyn gwella eu sgiliau Technoleg Gwybodaeth, eu hyder a'u galluoedd. Rydyn ni'n galluogi'r rheiny sydd heb gyfarpar Technoleg Gwybodaeth i ddefnyddio cyfrifiaduron a'r rhyngwrwd mewn nifer o leoedd cyhoeddus ledled y Fwrdeistref Sirol. Rydyn ni wedi galluogi pobl i ddefnyddio gwasanaethau technoleg gwybodaeth a'r rhyngwrwd drwy ddarparu cyswllt diwifr am ddim yn ein llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, safleoedd Cymunedau yn Gyntaf a'n theatrau. Mae hyn yn galluogi pobl i ddefnyddio'r rhyngwrwd ar eu dyfeisiau eu hunain pe hoffen nhw wneud hynny.

Mae ein **Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol** yn darparu gwasanaeth Cymorth Cofrestru Etholiadol ar gyfer trigolion sydd ag anghenion arbennig. Maen nhw'n ymweld â thrigolion er mwyn eu helpu i gofrestru. Yn ogystal â hynny, mae proses i hwyluso'r broses o gofrestru ar-lein. Mae modd addasu'r broses yma ar gyfer trigolion sydd ag anableddau.

Parhaodd ein **Gwasanaethau Hamdden** i fuddsoddi mewn cyfleusterau ffitrwydd, sy'n golygu ein bod ni wedi gosod cyfleusterau newydd yn lle ein hen gyfleusterau, gan sicrhau mynediad gwell i bawb. Caiff Cyfarpar Ffitrwydd Hollgynhwysol ei gynnwys mewn unrhyw dendrau yn awtomatig.

Cafodd Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen ei difrodi gan dân yn ddiweddar, sydd wedi rhoi cyfle i ni addasu'r ddarpariaeth ar gyfer pobl sydd ag anableddau. Doedd dim darpariaeth i'r bobl yma o'r blaen. Bellach, mae gan y Ganolfan ystafell newid hygrych.

O fewn cwmpas y Cynllun Atgyfeirio Ymarfer Corff Cenedlaethol, rydyn ni wedi ymestyn y categorïau o ran atgyfeirio i gynnwys trigolion sy'n wynebu problemau iechyd meddwl.

Mae ein carfan datblygu chwaraeon wedi ennill safon Efydd Insport am ddarparu cyfleoedd hollgynhwysol ym maes chwaraeon i bobl anabl. Mae'r garfan yn gweithio tuag at ennill y safon Arian, sy'n golygu bod rhagor o weithgareddau yn cael eu gwneud yn rhai hollgynhwysol ar gyfer pobl anabl.

Mae'r canolfannau hamdden wedi parhau i weithio gyda nifer o grwpiau i bobl anabl. Bellach, rydyn ni'n datblygu clybiau badminton a thrampolinio i bobl anabl yn ogystal â phêl-rwyd i bobl anabl a rygbi cadair olwyn.

Mae un o'n canolfannau yn cynnig sesiynau nofio i bobl drawsrywiol

Mae'r ddarpariaeth o ran **Gwasanaeth Llyfrgelloedd** wedi'i ddylunio i ddiwallu anghenion yr holl sectorau ar gyfer pobl o bob oed. Mae cadarnhad Llywodraeth Cymru fod y gwasanaeth yn bodloni'r 18 hawliad craidd yn dystiolaeth ei fod wedi parhau i wneud hyn. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn Rhondda Cynon Taf yn parhau i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr, gan gynnwys:

- 13 o lyfrgelloedd statig
- 3 llyfrgell symudol (sy'n canolbwyntio ar ardaloedd lle does dim llyfrgelloedd statig ac ardaloedd lle mae'n anodd i bobl gyrraedd y llyfrgell agosaf)

- Gwasanaeth i bobl sydd methu â gadael y tŷ (mae'r rhan fwyaf o gwsmeriaid y gwasanaeth yma yn bobl hŷn, pobl sydd methu symud rhyw lawer a phobl sydd â nam ar eu golwg)
- Gwasanaeth Plant a Phobl Ifainc (gan gynnwys y ddarpariaeth E-teens a gweithgareddau ar gyfer plant yn ystod gwyliau'r ysgol)
- Mae Gwasanaeth y Llyfrgelloedd i Ysgolion yn helpu ysgolion drwy ddarparu deunyddiau sy'n helpu gyda llythrennedd a gwaith prosiect.

Mae'r gwasanaeth wrthi'n asesu sut i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael y gwasanaeth gorau posibl o'r ddarpariaeth symudol a'r gwasanaeth i bobl sydd methu â gadael y tŷ. Rydyn ni wedi llunio taflen ddewisiadau a fydd yn llywio'r gwaith o ddatblygu hybiau cymunedol symudol mewn partneriaeth â gwasanaethau a phartneriaeth eraill. Bydd hyn hefyd yn golygu bod y gwasanaeth i bobl sydd methu â gadael y tŷ yn cael ei ymestyn i bobl sy'n gynhalwyr llawn amser neu sydd methu â chario llyfrau os oes angen iddyn nhw ymweld â llyfrgell symudol.

Mae'r gwasanaeth wedi parhau i hwyluso amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer grwpiau, a gafodd eu hamlinellu yn yr adroddiad y llynedd. Yn ogystal â hynny, digwyddodd y datblygiadau canlynol yn 2017:

- partneriaeth gydag Yfed Doeth Heneiddio'n Dda er mwyn hwyluso grŵp Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol i bobl hŷn yn Llyfrgell Hirwaun
- cafodd rhagor o weithgareddau Cymraeg i blant eu darparu drwy ein partneriaeth gyda sefydliadau Cymraeg i Blant a Menter Iaith
- cawson ni drafodaethau yn rhan o gyfarfodydd ehangach Cymdeithas y Prif Lyfrgellwyr ynglŷn â sut i helpu pobl sydd â dementia sy'n defnyddio'r llyfrgelloedd.

Mae'r gwasanaeth yn awyddus iawn i helpu pobl leol i gael swyddi a phrofiad gwaith er mwyn gwella eu sgiliau, ni waeth beth fo lefel eu gallu. Cafodd Prentis Digiddeiddio ei benodi er mwyn helpu gyda'r Rhaglen Ddigiddeiddio, a bellach mae 5 gwirfoddolwr rheolaidd yn gweithio mewn amrywiaeth o swyddi, er enghraifft, drwy helpu i gyflawni Her Ddarllen yr Haf a helpu gyda phrosiectau o ran hanes lleol a digideiddio.

Mae'r deunyddiau a gafodd eu prynu ar gyfer cwsmeriaid yn cynnwys deunyddiau mewn sawl ffurf (print bras, sain, digidol, clawr caled a chlwr papur). Yn 2016/17, llwyddodd y gwasanaeth i fodloni'r dangosydd perfformiad oedd ei angen ar gyfer y ganran o ddeunyddiau a oedd ar gael yn Gymraeg.

Yn ogystal â hynny, mae'r gwasanaeth wedi tanysgrifio i sawl gwasanaeth ar-lein, sy'n helpu cwsmeriaid i gael gafael ar wybodaeth yn rhad ac am ddim. Mae'r rhain

yn cynnwys findmypast, cylchgronau Zinio, cyfnodolion ar-lein ac ati. Nod hyn yw sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth ddim yn wynebu anfantais oherwydd tlodi, a bod modd iddyn nhw gyflawni eu gwaith ymchwil a dysgu rhagor ni waeth beth fo'u hamgylchiadau ariannol.

Mae **grwpiau Byw i Fyw** wedi cael eu sefydlu ar gyfer pobl o bob oed a gallu i fwynhau cwmni pobl eraill mewn amgylchedd diogel a chroesawgar. Mae ethos Byw i Fyw yn gynhwysfawr iawn (pob oed, gallu, anabledd) ac yn cynnig croeso cynnes i bobl fel eu bod nhw'n gallu gwneud ffrindiau a mwynhau.

Ffocws Byw i Fyw yw rhoi hwb i gryfderau eraill fel eu bod nhw'n gallu mwynhau bywyd dim ots beth sydd wedi digwydd iddyn nhw yn y gorffennol. Mae aelodau presennol yn mwynhau'r grwpiau cymaint eu bod nhw'n eu hystyried yn uchafbwynt wythnosol. Mae aelodau yn amrywio o bobl yn eu 20au i'w 90au. Rhaid bod aelodau yn ystyriol tuag at eraill, yn enwedig os oes ganddyn nhw broblemau symudedd, meddygol, gweledol neu broblemau clyw ac ati. Mae pob un sy'n mynychu yn haeddu parch a chyfeillgarwch.

Mae ein **Carfan Cysylltiadau Cyhoeddus, Twristiaeth ac Achlysuron** yn dal i gynnal achlysuron ledled y Fwrdeistref. Mae'r rhan fwyaf o'r achlysuron yma yn rhad ac am ddim, fel bod modd i bawb fanteisio arnyn nhw. Caiff yr achlysuron yma eu cynnal mewn lleoedd gwahanol bob blwyddyn, lle bo modd gwneud hynny. Nod hyn yw sicrhau bod pob cymuned yn cael budd o'r gwasanaethau a gaiff eu darparu.

Mae cynllun **Gwasanaeth Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol** yn amlinellu ei werthoedd a'i ymrwymiad i weithredu mewn modd sydd ddim yn ormesol nac yn gwahaniaethu. Mae'r holl raglenni hyfforddiant yn gweithio tua'r ymrwymiad yma. Mae gan Ganolfan Asesu'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau bolisi cyfle cyfartal a chaiff y cyflawniad yn erbyn hyn ei fonitro bob blwyddyn drwy ymweliadau gan Ymgynghorwyr Allanol.

Mae'r rhaglen **Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall** yn gylch trafod arferion da i gyflogwyr ynghylch tueddiad rhywiol. Daeth y Cyngor yn Hyrwyddwyr Amrywiaeth yn 2013. Mae'r Garfan Cydraddoldeb ac Amrywioldeb yn parhau i weithio'n agos gyda charfan gweithle Stonewall er mwyn datblygu arferion sy'n cefnogi gweithwyr LGBT, yn ogystal â chael effaith ar y gymuned.

Mae'r Gwasanaeth **Gofal y Strydoedd** yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i bob trigolyn a phob rhan o'r gymuned. Mae staff y gwasanaeth yn ymdrechu i ddarparu gwasanaethau mewn modd teg a chyfartal, yn ogystal â mynd gam ymhellach i ddiwallu anghenion pobl lle y bo hynny'n briodol. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys cymorth o ran casglu biniau ar gyfer trigolion sydd â phroblemau o ran symudedd. Mae rhywfaint o staff y rheng flaen wedi dechrau cael hyfforddiant ym maes diogelu

ac mae ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a llythyrau yn cyd-fynd â safonau'r Gymraeg.

Rydyn ni'n darparu rhagor o gymorth i drigolion sy'n ei chael hi'n anodd cydymffurfio â'n polisïau, megis casgliadau â chymorth ar gyfer trigolion sydd â phroblemau symudedd a chaniatáu bagiau duon ychwanegol ar gyfer trigolion sydd methu â rhoi trefn ar eu sbwriel oherwydd nam ar eu golwg.

Rydyn ni wrthi'n gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru i gyfieithu taflenni ymwybyddiaeth mewn nifer o ieithoedd i ddiwallu gofynion poblogaeth amlddiwylliannol myfyrwyr Trefforest. Nod hyn yw mynd i'r afael â gwastraff a materion ailgylchu yn y gymuned.

Mae'r Uned Orfodi a Charfan Werdd y Gymuned wedi cynnal prosiectau megis ymgyrchoedd casglu sbwriel ac adeiladu ystafelloedd dosbarth awyr agored, gan gynnwys cyfleusterau i gadeiriau olwyn a gerddi synhwyraidd.

Mae'r **Gwasanaethau Trafnidiaeth** yn cael effaith sylweddol ar nifer o grwpiau gwarchoddedig. Er bod yr effaith yma'n un gadarnhaol yn gyffredinol, mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod ei bolisïau a'i weithdrefnau yn gyson ac yn deg o ran yr hyn a gaiff ei ddarparu.

Mae'r Adnodd Asesu Effaith y Gwasanaeth Bysiau bellach wedi'i ymgorffori yn y drefn flynyddol, a chaiff ei ddefnyddio i flaenoriaethu a llywio unrhyw fuddsoddiadau yn y gwasanaeth. Caiff y rheiny sydd â'r sgoriau uchaf gymhorthdal yn unol â'r cyllid sydd ar gael. Mae'r adnodd yn archwilio nifer y defnyddwyr fesul siwrnai; y gost fesul teithiwr; argaeledd unrhyw wasanaethau amgen; yr effaith ar y rhwydwaith hyfforddi; gweithwyr sifft; gofal iechyd; ymweld ag ysbytai; addysg a hyfforddiant. Mae'r adnodd wedi bod yn dryloyw a, gyda chymorth yr Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb, mae e wedi helpu i nodi unrhyw broblemau posibl a lleihau eu heffaith.

Cyhoeddodd y Cyngor ganlyniadau ei waith ymgysylltu â thrigolion yn 2016 ym mis Chwefror 2017. Roedd yr ymatebion i'r adran am drafnidiaeth gyhoeddus yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, yn enwedig yr ymatebion gan y rheiny sy'n gymwys i ddefnyddio trafnidiaeth am ddim. Caiff mwy na 90% o'r rhwydwaith ei ddarparu'n fasnachol, a chafodd ei ddisgrifio fel rhwydwaith 'rhagorol', 'a gaiff ei ddefnyddio'n gyson', 'yn dda iawn i bobl hŷn' a dywedodd rhywun eu bod nhw'n 'dwlu ar yr agwedd gymdeithasol o deithio ar y bws'. Er i'r ffigur o ran pobl sy'n fodlon â'r rhwydwaith cyffredinol gynyddu i 81% (o 80%), cynyddodd y ffigur o ran y rheiny oedd yn fodlon ar ddibynadwyedd y bysiau i 87% (o 72%).

Mae modd i unigolion hŷn ac unigolion anabl deithio ar y bysiau am ddim. Mae hyn yn sicrhau bod y gwasanaeth yn hollgynhwysol. Mae modd i bob trigolyn sy'n hŷn na

60 oed hawlio tocyn bysiau gostyngol ac mae 54,345 o bobl wedi manteisio ar y cynnig yma. Caiff 5,167 o docynnau ychwanegol eu cyflwyno i bobl sydd o dan 60 oed ond sy'n anabl.

Caiff y ddarpariaeth o ran cludiant i bobl sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig ei deilwra i anghenion unigol y dysgwr gan garfan arbenigol yn y gwasanaeth. Mae hyn yn adlewyrchu'r amrywiaeth o ran galluedd corfforol yn y gymuned, ac mae gan 927 o'r 12,582 o ddysgwyr a gaiff eu cludo anghenion dysgu ychwanegol. Yn ogystal â hynny, caiff gyrwyr a chynorthwyrwyr teithwyr hyfforddiant arbennig ym maes ymwybyddiaeth o awtistiaeth ac epilepsi, cymorth cyntaf, yn ogystal â deall ymddygiad heriol a'i reoli.

Gan ystyried adborth gan y Grŵp Mynediad Lleol, llwyddodd y gwasanaeth i gael cyllid gan nifer o ffynonellau er mwyn gwella safleoedd bysiau, yn ogystal ag ateb nifer o geisiadau penodol lleol. Mae'r gwaith yn cynnwys gosod cysgodfannau newydd (os bydd digon o le ar y llwybr), polion a baneri newydd mewn safleoedd bysiau, cyrbau newydd sydd wedi'u codi, gydag ymylon graddedig, fel bod modd camu ar y bysiau heb ddefnyddio gris (does dim gris ar y bysiau), yn ogystal â gosod wyneb newydd ar y man sefyll i gwsmeriaid ac adnewyddu'r marciau ar y safleoedd bysiau. Mae swm sylweddol o arian wedi'i fuddsoddi mewn seilwaith gorsafedd bysiau ac yn 2019/17, llwyddodd y gwasanaeth i osod cyrbau hygyrch wedi'u codi yn 34.4% o'i 1,584 safle bws. Mae'r awdurdod bellach yn y 9<sup>fed</sup> safle yng Nghymru o ran hyn.

Mae'r Cyngor yn bartner yng **Ngwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS)** ac mae gydag e Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer darparu'r gwasanaeth priodol drwy Heddlu Gwent (a fydd yn trosglwyddo i Gyngor Caerdydd yn ystod 2017/18). Yn ystod 2016/17, cafodd 344 trefniant eu gwneud drwy'r gwasanaeth. Cafodd 21 o ieithoedd eu defnyddio, yn ogystal â dehonglwrwyr laith Arwyddion Prydain.

Y pum iaith y gofynnodd y cwsmeriaid amdany'n nhw fwyaf yn 2016/17: Lithwaneg, Mandarin, Wrddw, Portiwgaleg, iaith Arwyddion Prydain.

Mae'r **Gwasanaeth Hawliau** ar gael i ddefnyddwyr y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a'u cynhalwyr drwy atgyfeiriad gan ymarferwyr. Cafodd sesiynau codi ymwybyddiaeth eu cynnal ym mhob rhan o'r Gwasanaethau i Oedolion a Phlant er mwyn rhoi gwybod i bobl am y gwasanaeth, a'r buddion sydd i'w cael ohono, yn ystod y flwyddyn.

Mae modd i ddefnyddwyr Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, eu cynhalwyr a'u teuluoedd fanteisio ar y Gwasanaeth Cwynion. Caiff hygyrchedd y gwasanaeth ei ystyried, yn arbennig yng nghyd-destun pobl sydd â nam synhwyraidd. Mae hyn yn cynnwys trefnu i bobl gael cymorth gan eiriolwr yn ôl yr angen.

## Cyflawni Strategaethau'r Cyngor

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'i drigolion er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer cynllunio, blaenoriaethu a nodi meysydd i'w gwella a gwasanaethau i'w newid, pennu a monitro safonau perfformiad a mesur ansawdd y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.

Mae'r Cyngor wedi parhau i ddatblygu dull wyneb yn wyneb er mwyn ymgysylltu â thrigolion yn 2017. Ei nod yw cynnal sgwrs â'n trigolion sy'n ein galluogi ni i edrych ar eu hymatebion gwreiddiol yn fwy manwl. Bydd canfod barn trigolion am yr ardaloedd maen nhw'n byw ynddyn nhw a'r gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn o fudd i'r Cyngor a'i bartneriaid.

Aeth y Garfan Ymgynghori i achlysuron/cyfarfodydd cylchoedd trafod er mwyn ymgysylltu wyneb yn wyneb â thrigolion. Roedd y rhain yn cynnwys y Cylch Trafod Materion Anabledd, y Cylch Trafod i Bobl Hŷn a Chylch Trafod Ieuenctid RhCT. Yn ogystal â hynny, cynhalion ni sioeau teithio yn y parciau a chanolfannau trefi ar gyfer ymgynghoriad ar Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus - Rheoli Cŵn. Yn ogystal â hynny, gofynnwn ni i bobl wneud sylwadau ar amrywiaeth o Wasanaethau'r Cyngor a disgrifio'u profiadau o ran defnyddio'r gwasanaethau yn ystod ein hymarfer ymgysylltu blynyddol mewn perthynas â'r gyllideb. Yn rhan o hyn, parhaon ni i sgwrsio â thrigolion mewn sioeau teithio canol tref, canolfannau hamdden a chanolfannau dydd. Defnyddion ni efelychydd cyllideb ar-lein er mwyn galluogi trigolion i gael cyfle i bennu cyllideb y Cyngor eu hunain. Yn ogystal â hynny, cynhalion ni nifer o sioeau teithio gydag arweinwyr. Roedd y gwasanaethau yma yn seiliedig ar flaenoriaethau/buddsoddiadau presennol y Cyngor neu feysydd lle roedd angen i ni gael barn ein trigolion.

Rydyn ni wedi parhau i ymgysylltu â thrigolion ar-lein a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn casglu barn trigolion a hyrwyddo ymgynghoriadau.

Rydyn ni wedi parhau i feithrin cydberthnasau â thrigolion sy'n 50 oed neu'n hŷn drwy ymgysylltu â'r Cylchoedd Trafod i Bobl Hŷn. Mae hyn yn cynnwys cynnal nifer o achlysuron penodol yn ystod yr haf, ac rydyn ni bellach yn derbyn y newyddion diweddaraf ar agenda'r Cylch Trafod Materion Anabledd.

Rydyn ni wedi parhau i ddatblygu Cylch Trafod Ieuenctid ledled Rhondda Cynon Taf sy'n gysylltiedig â Chylchoedd Trafod Ieuenctid Rhanbarthol y Cyngor yn ogystal â chynrychiolwyr o gynghorau ysgolion.

Yn ogystal â hynny, mae'r Garfan Ymgynghori wedi cefnogi nifer o ymgynghoriadau yn y maes gwasanaeth yn 2017. Mae'r rhain yn cynnwys; achlysuron, trafndiaeth,



addysg, tai, ceisiadau am gyllid, Gwasanaethau Hamdden a Chwaraeon RhCT, boddhad o ran gofal cymdeithasol, adfywio, llyfrgelloedd, Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus ac arolygon sgiliau Cymraeg staff.

Yn rhan o ymrwymiad y Cyngor i wella'n barhaol, caiff yr adborth o'r gweithgareddau ymgysylltu ei ddefnyddio i werthuso'r effaith y mae gwaith y Cyngor yn ei chael ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Erbyn hyn, mae'r gwaith gwerthuso yn gysylltiedig â'n tudalennau gwe Ymgynghoriadau a hwb ymgynghori ar-lein, lle mae mecanwaith sy'n gwerthuso gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu yn cael ei gadw a'i anfon yn awtomatig at swyddogion pan fydd ymgynghoriadau yn dod i ben.

Rydyn ni wedi datblygu ein dull o gasglu data monitro cydraddoldeb drwy ymgynghoriadau, ac rydyn ni'n cynnwys cwestiynau perthnasol yn yr holl arolygon rydyn ni'n eu cyflawni. Yn ystod ymgynghoriadau newid gwasanaethau, rydyn ni'n gofyn cwestiwn am nodweddion gwarchoddedig, sy'n gofyn i'r ymatebwyr p'un a oes modd iddyn nhw gael eu heffeithio gan gynnig neu newid o ganlyniad i'w nodweddion gwarchoddedig.

Er mwyn rhoi adroddiadau a gwybodaeth gyson i'n Carfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, rydyn ni wedi gwella ein taenlen cynllunio ymgynghoriadau, fel bod modd nodi'r hyn sydd wedi'i gynllunio, beth oedd canlyniadau'r ymgynghoriad a'r data monitro cydraddoldebau a gafodd ei nodi.

Caiff dull cyfun o ran ymgynghori ac ymgysylltu ei ddatblygu drwy Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu ar y cyd, a chaiff yr adborth ei adrodd i Fwrdd Cydweithio Cwm Taf. Bwriad y grŵp yw sicrhau dull effeithlon ac effeithiol tuag at ymgynghori ac ymgysylltu i bartneriaid Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. I wneud hyn, byddwn ni'n helpu pobl eraill i ddeall bod angen cynnwys pobl a defnyddio'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Safonau Cenedlaethol Cymru ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifainc: Mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn ymwneud â gweithio gyda'n gilydd i wella gwasanaethau.

Bydd partneriaid Bwrdd Gwasanaeth Lleol ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn sicrhau bod y math hwn o ymgysylltu â'r cyhoedd yn dod yn fusnes craidd. Mae hyn yn golygu bod ymgysylltu â'r cyhoedd yn hanfodol wrth nodi, cynllunio, comisiynu, darparu a gwerthuso gwasanaethau.

Eleni, mae'r gwaith partneriaeth wedi parhau i ganolbwyntio ar y cymorth a gaiff ei roi i brosiect partneriaeth o'r enw Deall Ein Cymunedau. Mae gwasanaethau cyhoeddus ledled Cwm Taf, gan gynnwys Cynghorau, y Bwrdd Iechyd, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân a sefydliadau'r trydydd sector wedi darparu gwybodaeth sydd wedi llywio'r asesiadau sydd eu hangen yn rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

## Cyflawniad y Cyngor

Prif gynllun strategol y Cyngor yw ei [Gynllun Corfforaethol - Y Ffordd Ymlaen](http://www.rctcbc.gov.uk/EN/Council/PerformanceBudgetsandSpending/Councilperformance/RelatedDocuments/CorporatePlan201620/CorporatePlan201620.pdf) <<http://www.rctcbc.gov.uk/EN/Council/PerformanceBudgetsandSpending/Councilperformance/RelatedDocuments/CorporatePlan201620/CorporatePlan201620.pdf>>.

Mae'r cynllun yma'n amlinellu blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y pedair blynedd rhwng 2016-2020. Caiff y camau gweithredu manwl er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau yma eu hamlinellu mewn cynlluniau sy'n destun monitro a chraffu gan y Cynghorwyr bob chwarter. Mae hyn yn rhan o [Adroddiadau Cyflawniad](http://www.rctcbc.gov.uk/EN/Council/PerformanceBudgetsandSpending/Councilperformance/Councilperformancemonitoringreports/Reportingcouncilperformance.aspx) <<http://www.rctcbc.gov.uk/EN/Council/PerformanceBudgetsandSpending/Councilperformance/Councilperformancemonitoringreports/Reportingcouncilperformance.aspx>> y Cyngor i'r Cabinet. Ar ddiwedd y flwyddyn, caiff y cynlluniau eu herio, eu hadolygu a'u gwerthuso yn fwy manwl. Wedyn, caiff y canlyniadau eu cynnwys yn [Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol \(pdf\)](http://www.rctcbc.gov.uk/EN/Council/PerformanceBudgetsandSpending/Councilperformance/RelatedDocuments/CPR151617/CPR201617Doc/CorporatePerformanceReport201617.pdf) <<http://www.rctcbc.gov.uk/EN/Council/PerformanceBudgetsandSpending/Councilperformance/RelatedDocuments/CPR151617/CPR201617Doc/CorporatePerformanceReport201617.pdf>> y Cyngor.

## Diffyg Gwybodaeth ac Effeithiolrwydd

Er y cafodd llawer o wybodaeth ei chasglu ar gyfer yr adroddiad hwn, rydyn ni'n cydnabod ei bod hi'n anodd casglu a monitro pob darn o wybodaeth o fewn Cyngor maint Rhondda Cynon Taf. Mae nifer o rwydweithiau traws-Gyngor, e.e. y Grŵp Swyddogion Anabledd, eisoes yn gweithredu er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ac arferion da yn cael eu monitro a'u rhannu. Ond, rydyn ni'n cydnabod bod angen gwneud rhagor i sicrhau dull cyson tuag at rannu gwybodaeth.

Mae nifer o enghreifftiau o arfer da lle mae gan feysydd gwasanaeth ddarpariaeth ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig. Serch hynny, mae angen gwella'r sefyllfa gyffredinol o ran cysondeb yr wybodaeth a gaiff ei chasglu. I weld sut rydyn ni'n mynd i'r afael â hyn, ewch i adran 'camau pellach' yr adroddiad hwn.

## 6. Amcanion Cydraddoldeb

Cafodd amcanion cydraddoldeb eu cynllunio i'n helpu i arwain a chyflawni'n well mewn perthynas â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol. Mae ein hamcanion cydraddoldeb fel a ganlyn:

- Achosion 'Troseddau Casineb' a 'Mynd i'r Afael ag Agweddau ac Ymddygiad Negyddol'
- Datblygu Trefniadau Monitro mwy Cadarn
- Cyflogau'r Rhywiau.

## **Achosion 'Troseddau Casineb' a 'Mynd i'r Afael ag Agweddau ac Ymddygiad Negyddol'**

### **Beth rydyn ni wedi'i gyflawni**

#### ***Trosedd Casineb***

Rydyn ni eisoes wedi nodi ein bod ni wedi datblygu Strategaeth Troseddau Casineb ar gyfer Rhondda Cynon Taf. Rydyn ni wedi rhoi cynllun gweithredu'r strategaeth ar waith er 2 flynedd bellach, ac mae wedi llwyddo i gyflawni'r canlynol:

- Mae Grŵp Cydlyniant Cymunedol Cwm Taf yn adrodd ar ystadegau troseddau casineb Heddlu De Cymru ac yn craffu arnyn nhw.
- Mae Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhondda Cynon Taf a Swyddog Troseddau Casineb Heddlu De Cymru wedi cynnal nifer o ymweliadau sicrwydd.
- Caiff adroddiadau cynnydd Troseddau Casineb eu trafod yng nghyfarfodydd y Bartneriaeth Cymunedau Diogel.
- Rydyn ni'n parhau i godi ymwybyddiaeth o weithdrefnau cofnodi troseddau casineb Rhondda Cynon Taf ac yn dosbarthu taflenni gwybodaeth am droseddau casineb.
- Rydyn ni wedi parhau i gynnal sesiynau ymwybyddiaeth am droseddau casineb i staff y Cyngor.
- Rydyn ni wedi darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o droseddau casineb i staff mewn cymdeithasai tai a grwpiau cymuned.
- Rydyn ni wedi gweithio mewn partneriaeth â darparwyr addysg ac wedi cynnal sesiynau ymwybyddiaeth o droseddau casineb yn ystod wythnos y glas ac mewn achlysuron ym Mhrifysgol De Cymru a Choleg Morgannwg.
- Rydyn ni wedi cynnal rhagor o sgysiau ag ysgolion ynglŷn â chodi ymwybyddiaeth staff a disgyblion yr ysgol yn y dyfodol.
- Nodon ni Ddiwrnod Cofio'r Holocaust drwy gynnal achlysur yn Theatr y Colisëwm
- Cynhalion ni wythnos o weithgareddau ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb.  
Cafodd stondinau codi ymwybyddiaeth eu gosod mewn archfarchnadoedd, ysbytai ac ysgolion lleol yn ystod yr wythnos.

### **Mynd i'r afael ag Agweddau ac Ymddygiad Negyddol**

#### ***Herio Ymddygiad***

Rydyn ni'n cynnig hyfforddiant Urddas a Pharch sy'n egluro ein cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, herio ystrydebau, iaith ac ymddygiad anaddas. Sesiwn hyfforddi ryngweithiol yw hi sy'n cynnig llawer o gyfleoedd i gyfranogwyr herio'u rhagdybiaethau. Mae dros 200 o gyflogeion o amrywiaeth o wasanaethau, gan

gynnwys Gwasanaethau'r Gymuned a Gwasanaethau i Blant, ein theatrau ac un ysgol gynradd wedi cael hyfforddiant Urddas a Pharch eleni. Mae adborth o'r hyfforddiant yn dal i fod yn bositif. Nododd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr y byddan nhw'n myfyrio ar y sesiwn ac yn newid eu hymddygiad yn y gweithle. Yn ogystal â hynny, rydyn ni'n annog pobl i lofnodi Ymgyrch #DimAnwybyddu Stonewall, sy'n annog cydweithwyr i herio iaith ac ymddygiad anaddas.

Cynhalion ni nifer o foreau coffi, a gafodd eu cefnogi gan ein rhwydwaith Cynghreiriaid, er mwyn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â gwahanol grwpiau o bobl.

Rydyn ni'n bresennol ar safle mewnwyd y Cyngor (Inform) er mwyn codi ymwybyddiaeth o amrywiaeth o wahanol ddyddiau:

- Diwrnod y Cenhedloedd Unedig dros gael gwared ar Wahaniaethu ar sail Hil
- Diwrnod Rhyngwladol y Merched
- Anhwylderau bwyta
- Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol
- Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd
- Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl

### ***Ymrwymiad i Raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall***

Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i Raglen Amrywiaeth Stonewall ac yn gwneud rhagor o gynnydd yn y maes yma. Rydyn ni'n cefnogi nifer o fentrau, gan gynnwys y canlynol:

- 'Perthyn', rhwydwaith Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol cynaledig
- Parhau i dyfu'r Rhwydwaith Cynghreiriaid
- Uwch eiriolwr Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol amlwg
- Gwella ffurflenni monitro er mwyn casglu data sy'n gysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol
- Mynd i Pride Cymru ac ymgysylltu â thrigolion, mewn partneriaeth â Chynghorau eraill o Gymru
- Rhannu gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol ar Inform ac ar wefan y Cyngor yn rheolaidd, gan gynnwys blogiau gan staff sy'n aelodau o'r rhwydwaith
- Chwifio Baner yr Enfys ar gyfer Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol, Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia a Thrawsffobia ac yn ystod wythnos Pride
- Cefnogi ein theatrau ar gyfer achlysuron Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol
- Hyrwyddo'r Ymgyrch Lasys Enfys
- Annog pobl i gefnogi'r ymgyrch #DimAnwybyddu.

### ***Ymrwymiad i Addewid Amser i Newid Cymru: Addewid Sefydliadol***

Ym mis Rhagfyr 2014, llofnododd y Cynghorydd Mike Forey Addewid Amser i Newid Cymru: Addewid Sefydliadol ar ran y Cyngor. Drwy lofnodi'r Adduned, rydyn ni wedi ymrwymo i fynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu mewn perthynas ag iechyd meddwl yn y gweithle.

Bob mis, bydd y garfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cynnal sesiwn 'amser i siarad' ar un o safleoedd y Cyngor. Rydyn ni wedi cynnal sesiynau ym mhob un o brif swyddfeydd y Cyngor yn ogystal â rhai depos. Mae'r rhain yn sesiynau galw heibio sy'n annog staff i drafod iechyd meddwl. Caiff y sesiynau eu cyflwyno mewn ysgolion uwchradd erbyn hyn. Er mwyn cyd-fynd â'r sesiynau yma, bydd aelod o staff yn ysgrifennu blog ar Inform unwaith y mis sy'n sôn am sut mae'n byw â chyflwr iechyd meddwl.

Cynhaliodd Valleys Steps bum sesiwn ymwybyddiaeth ofalgar o fewn y sefydliad ar gyfer wythnos Iechyd Meddwl y Byd ym mis Hydref 2016. Daeth bron 100 o weithwyr i'r sesiynau yma.

### ***Datblygu Trefniadau Monitro mwy Cadarn***

Llwyddodd Carfan Rheoli Cyflawniad y Cyngor i gasglu gwybodaeth berthnasol o bob maes gwasanaeth yn rhan o broses Hunanwerthuso Hunanwasanaeth y Cyngor, er mwyn ei chynnwys yn yr adroddiad yma. Cafodd yr wybodaeth a gafodd ei chasglu y llynedd ei defnyddio i nodi pa hyfforddiant oedd ei angen a'i gyflwyno i bawb yn y Gwasanaeth Tai.

Cafodd sgwrsiau eu cynnal â rhai meysydd gwasanaeth er mwyn casglu data monitro, a chaiff hyn ei ddatblygu ymhellach. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda'r Meysydd Gwasanaeth i adolygu pa wybodaeth a gaiff ei chasglu gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'i monitro.

### ***Cyflogau'r Rhywiau***

#### ***Y Gwahaniaeth yng Nghyflogau'r Rhywiau***

Ystyr y gwahaniaeth yng nghyflogau'r rhywiau yw'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau cyflogaeth cyfartalog dynion a menywod mewn sefydliad. Mae modd ei gyfrifo drwy rannu cyfradd cyflog cyfartalog menywod gyda chyfradd cyflog cyfartalog dynion.

Mae rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'r gwahaniaeth yng nghyflogau'r rhywiau rhwng gweithwyr sy'n ddynion ac yn fenywod. Yn ogystal â hynny, mae gofyn iddo gyhoeddi'r data yma ar wahân ar gyfer gweithwyr ym maes Addysg (staff dysgu).

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn awgrymu'n gryf y dylai sefydliadau gyhoeddi'r gwahaniaeth yng nghyflogau'r rhywiau ar gyfer staff llawn

amser a staff rhan amser ar wahân. Caiff unrhyw wahaniaeth o 5% neu fwy yng nghyflogau'r rhywiau ei ystyried yn wahaniaeth sylweddol, a bydd hyn yn gofyn am ragor o ddadansoddi.

Nododd Archwiliad Cyflogau Cyfartal 2017 y gwahaniaethau canlynol:-

2017	Y Gwahaniaeth ar y Cyd	Y Gwahaniaeth - Llawn Amser	Y Gwahaniaeth - Rhan Amser
Pob un o'r gweithwyr	+ 14.06%	- 10.10%	+ 6.02%
Ddim yn Ymwneud ag Addysgu	+ 14.66%	- 7.66%	+ 5.81%
Addysgu	+ 6.28%	+ 5.79%	- 1.08%

Ystyr cymedr y gwahaniaeth yng nghyflogau'r rhywiau yw'r gwahaniaeth rhwng cymedr y gyfradd fesul awr ar gyfer gweithwyr llawn amser perthnasol sy'n ddyinion a chymedr y gyfradd fesul awr ar gyfer gweithwyr llawn amser perthnasol sy'n ferched. Mae ffigur positif yn dangos bod gwahaniaeth sy'n ffafriol i weithwyr sy'n ddyinion. Mae ffigur negyddol yn dangos bod gwahaniaeth sy'n ffafriol i weithwyr sy'n ddyinion.

Mae pob categori o ran y gwahaniaeth mewn cyflog yn ffigur ar wahân, a dyw e ddim yn dilyn unrhyw batrwm yn ôl y colofnau na'r rhesi.

### ***Ymrwymiad i Brosiect Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi (WAVE)***

Mae'r Cyngor wedi bod yn rhan o brosiect arloesol WAVE mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd er mwyn cyflawni'r amcanion o ran Cyflogau'r Rhywiau. Rydyn ni wedi dadansoddi'r data ynglŷn â' gweithlu yn drylwyr ac wedi nodi meysydd anghydfod o ran cyflogau'r rhywiau. Mae'r meysydd anghydfod yn cynnwys merched a gaiff eu cyflogi ar raddau 1 i 3. Bu swyddog graddedig yn gweithio ar y prosiect yma am chwe mis, ac ymchwiliodd i'r grŵp o staff yma. Cafodd dau adroddiad eu cyflwyno i Uwch Garfan Reoli'r Cyngor yn rhan o'r broses ymchwil yma. Roedd y rhain yn argymhell profiad gwaith mewnol a chyfres o arferion gweithio hyblyg. Bellach, mae dulliau gweithio hyblyg wedi cael eu rhoi ar waith ym mhob rhan o'r Cyngor, yn dilyn cyfnod prawf llwyddiannus. Rydyn ni hefyd wedi creu nifer o safleoedd desgiau gwag (hot desking). Mae grŵp prosiect yn gyfrifol am roi'r fenter yma ar waith a'i monitro.

Yn rhan o'r amcan o ran cyflogau'r rhywiau, cafodd 500 o reolwyr hyfforddiant ar duedd anymwybodol. Roedd hyn yn cynnwys sesiwn wyneb yn wyneb, yn ogystal â phegyn e-ddysgu dilynol. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol, a chytunodd y rheolwyr ei fod yn bwnc dadleuol.

### ***Cynnydd Cyffredinol***

Fel y gwelir uchod, mae'r camau'n datblygu'n dda a chân nhw eu monitro drwy ddulliau amrywiol a gan Garfan Rheoli Cyflawniad y Cyngor.

Roedd y broses monitro barhaus wedi nodi bod angen gwneud newidiadau bach i rai o'n camau. Yn ogystal â hyn, nododd yr Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol blaenorol fod angen adolygu'r amcanion cydraddoldeb a'r cynllun gweithredu oherwydd newid mewn amgylchiadau a gwybodaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod y newidiadau yn cael eu hadlewyrchu a bod y cynllun gweithredu yn amserol ac yn cael ei gyflawni.

## 7. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r Cyngor wedi cynnal proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ers sawl blynedd. Mae'r broses yn cael ei chynnal o dan yr amgylchiadau canlynol:

- wrth ddatblygu polisiau neu arferion newydd (gan gynnwys cynlluniau corfforaethol, cynlluniau busnes blynyddol a'r gyllideb flynyddol)
- wrth gynnig gwneud newidiadau i bolisiau neu arferion cyfredol, ac wrth gynnal adolygiadau o wariant a gwerthuso rhaglenni
- os oes cynigion i atal neu roi'r gorau i bolisi neu arfer cyfredol
- os yw'r broses Cynllunio Busnes wedi nodi perthnasedd neu oblygiadau i gydraddoldeb

Caiff y broses ei hadolygu'n rheolaidd ac mae eisoes yn ystyried y nodweddion gwarchoddedig a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Dechreuodd y Cyngor broses sgrinio ym mis Ionawr 2012. Ei fwriad yw sicrhau bod y broses mor effeithiol â phosib a bod yr wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn ystod y cam sgrinio yn gallu cael ei defnyddio os oes angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Er hynny, mae'r Cyngor yn cynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn awtomatig.

Mae'r tabl isod yn nodi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a oedd wedi'u cynnal yn 2016/2017. Gweler crynodeb o'r canlyniadau a'r camau a gymerwyd.

### Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gwasanaeth/Adran	Polisi/Gweithdrefn	Result (Canlyniad)
Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant	Symud trigolion o Gartref Gofal Maesyffynon	AEG llawn - cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu.
Gwasanaethau Cymuned a	Canolfan Oriau Dydd y Santes Fair -	AEG llawn -

Gwasanaethau i Blant	trosglwyddo'r gwasanaeth i ddarparwr Trydydd Parti	cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu.
Menter Cwm Taf sy'n effeithio ar Wasanaethau'r Gymuned a Gwasanaethau i Blant	Gwasanaeth Asesu ac Ymateb Integredig Cwm Taf	AEG llawn - effeithiau cadarnhaol ar gyfer pobl hŷn. Monitro parhaus.
Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes	Ysgolion yr 21 <sup>ain</sup> Ganrif - Ysgolion Cynradd Cymunedol ar gyfer Cwmaman.	AEG llawn - cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu.

Mae'r holl fanylion a'r penderfyniadau o ran asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cabinet, sydd i'w gweld wrth ddilyn y ddolen ganlynol:

<http://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/CouncillorsCommitteesandMeetings/Committees/Committees.aspx>

## 8. Data Monitro Cyflogaeth

Rhaid i'r Cyngor gasglu a chyhoeddi'r data canlynol bob blwyddyn:

- nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi gan yr awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl eu nodweddion gwarchoddedig
- nifer y dynion a menywod sy'n cael eu cyflogi, yn ôl eu:
  - swydd
  - graddfa (lle bod system graddio yn berthnasol)
  - cyflog
  - math o gytundeb (gan gynnwys cytundebau parhaol a chyfnod penodol)
  - patrymau gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)
- nifer y bobl sydd wedi ceisio am swyddi â'r awdurdod dros y flwyddyn ddiwethaf
- nifer y gweithwyr sydd wedi gwneud cais i newid eu swydd o fewn yr awdurdod, a nodi sawl oedd yn llwyddiannus yn eu cais a sawl oedd ddim
- nifer y gweithwyr sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a sawl un sydd wedi llwyddo



- nifer y gweithwyr a gyflawnodd hyfforddiant
- nifer y gweithwyr a oedd wedi dilyn y weithdrefn gwynion, un ai drwy wneud cwyn neu drwy fod yn destun i'r cwyn
- nifer y gweithwyr sy'n destun i weithdrefnau disgyblu
- nifer y gweithwyr sydd wedi gadael swydd o fewn yr awdurdod

Rhaid i'r holl wybodaeth uchod gael ei chyflwyno yn ôl pob un o'r grwpiau gwarchoddedig gwahanol. Yr eithriad i'r gofyniad hwn yw'r data ynglŷn â swydd, graddfa, cyflog, a math o gytundeb a phatrwm gwaith. Rhaid i'r rhain gael eu trefnu yn ôl menywod a dynion.

Gweler yr wybodaeth ynghlwm wrth Atodiad 1 – Data Monitro Cyflogaeth

## 9. Caffael

Mae'r Cyngor yn gweithredu'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID) sy'n rhan o'r wefan gaffael genedlaethol – [www.Sell2Wales.co.uk](http://www.Sell2Wales.co.uk)

Mae SQuID yn cynnwys cwestiynau craidd sy'n codi'n aml yn ystod y cam dethol. Mae'n cynnwys cronfa ddata o atebion y cyflenwyr at ddibenion eu hailddefnyddio a chynorthwyo prynwyr i greu holiadur drwy ddefnyddio dewin ar sail risg ar gyfer pob cynllun caffael. Y bwriad yw y bydd y pethau yma yn sicrhau'r canlynol:

- Gwell effeithlonrwydd i gyflenwyr a phrynwyr, drwy alluogi bod cwestiynau ac atebion safonol yn cael eu cadw i'w defnyddio yn y dyfodol, drwy gwtogi'r nifer o gwestiynau, a thrwy annog prynwyr i ofyn am wybodaeth os ydyn nhw'n gallu esbonio'n glir sut bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio yn unig.
- Safoni'r cam dethol yn well, a chaniatáu ar gyfer addasu cwestiynau i gwrdd â gofynion penodol y caffaeliad.
- Eglurder o ran y cam dethol a'r ffordd y bydd atebion yn cael eu gwerthuso. Bydd hyn yn sicrhau bod cyflenwyr yn gallu penderfynu'n hawdd os ydyn nhw am wneud cynnig am gyfle penodol neu beidio, sut i wneud y gorau o'u cynnig a sut i'w cyflwyno mewn ffordd effeithiol.
- Cyfleoedd gwell i fusnesau bach a chanolig a busnesau lleol allu cystadlu'n deg o ganlyniad i osod cwestiwn sydd wedi'i ystyried yn ofalus. Bydd hyn yn cael gwared â rhai rhwystrau iddyn nhw.

Mae SQuID yn cynnwys adran ynglŷn â chyfleoedd cyfartal sy'n unol â chanllawiau caffael Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – [www.equalityhumanrights.com/wales/](http://www.equalityhumanrights.com/wales/)

## **10. Gwybodaeth Hygyrch**

Mae'r cyngor yn darparu gwybodaeth mewn amryw o ffurfiau yn ôl angen. Mae meysydd gwasanaeth yn cofnodi ceisiadau am ffurfiau gwahanol gan ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael eu darparu.

Mae canllawiau ar hygyrchedd ar gael i weithwyr ar ryngrwyd fewnol y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnig gwybodaeth ar y math o wybodaeth sydd ar gael, beth mae'r wybodaeth yn ei gwneud, ac yn cynnwys rhestr o gyflenwyr fel bod gweithwyr yn gallu dod o hyd i ffynhonnell y ffurfiau maen nhw wedi gofyn amdany'n nhw.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Canllawiau Print Eglur yr RNIB i wella dibynadwyedd ei ddogfennau.

## **11. Gwaith Pellach**

Bydd gwaith tuag at gyflawni'r camau gweithredu a amlinellwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn parhau.

Byddwn ni'n parhau i gydweithio'n agos â'n partneriaid ar gyfer ein camau gweithredu o ran troseddau casineb. Byddwn ni'n cyflwyno pecyn e-ddysgu ar droseddau casineb i bob rheolwr ac yn parhau i gynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb. Bydd y rheiny sy'n wynebu troseddau casineb yn dal i gael cymorth ac ymweliadau sicrwydd.

Byddwn ni'n parhau i ymgysylltu ac ymgynghori â gwahanol rannau o'r gymuned, gan gynnwys y gymuned Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol a'r gymuned anabl er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau yn diwallu eu hanghenion penodol.

Byddwn ni'n parhau i fodloni ein cyfrifoldebau o dan y cynllun Hyderus am Anableddau.

Byddwn ni'n parhau i herio stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl drwy drefnu sesiynau Amser i Siarad misol drwy gydol y Cyngor a chodi ymwybyddiaeth rheolwyr ymhellach.

Byddwn ni'n parhau â'n hymrwymiad i Raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall, ac yn sicrhau ein bod ni'n cefnogi ein gweithwyr LGBT.

Byddwn ni'n parhau â'n hymrwymiad i Fynegai Addysg Cydraddoldeb Stonewall er mwyn sicrhau bod ein hysgolion yn parhau â'r gwaith maen nhw'n ei wneud i ddatlu gwahaniaeth a herio gwahaniaethu.

Byddwn ni'n parhau i ddarparu hyfforddiant Urddas a Pharch i gydweithwyr ym mhob rhan o'r Cyngor ac yn rhoi gwybod iddyn nhw am eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan eu hannog nhw i herio agweddau negyddol.

Byddwn ni'n ymestyn ein Rhwydwaith Cynghreiriaid ac yn darparu cymorth a hyfforddiant i aelodau'r grŵp yma er mwyn sicrhau bod modd iddyn nhw roi cymorth a chyfeirio pobl mewn modd effeithiol.

Byddwn ni'n parhau i fonitro a datblygu'r cynllun gweithredu WAVE.

## **12. Manylion Cyswllt**

Bydd Rhondda Cynon Taf yn croesawu sylwadau ynghylch unrhyw agwedd o'r adroddiad hwn, boed yn sylwadau ar y cynnwys neu'r hyn sydd ddim yn eglur ynglŷn â'r camau gweithredu a chynnydd o ran cydraddoldeb a chael gwared ar wahaniaethu.

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau, neu os hoffech chi ragor o wybodaeth ynglŷn â'r gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud, cysylltwch â:

Melanie Warburton  
Cydraddoldeb ac Amrywioldeb  
Cyngor Rhondda Cynon Taf  
Tŷ Elái  
Ystad Ddiwydiannol Dinas Isaf  
Trewiliam  
Tonypandy  
CF40 1NY

Ffôn: 01443 444531

E-bost: [cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk](mailto:cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk)

## Data Monitro Cyflogaeth

Mae gwybodaeth monitro cydraddoldeb yn cael ei chadw yn erbyn cofnodion pob gweithiwr sydd ar restr gyflogau'r Cyngor a'r system wybodaeth adnoddau dynol (Vision) Gofynnir am yr wybodaeth yn ystod y cam recriwtio ac mae'n cael ei chofnodi ar yr adeg honno.

Mae'r Cyngor yn annog ei holl weithwyr i ddarparu'r wybodaeth yma. Mae arolwg monitro cydraddoldeb yn cael ei gynnal bob 2 flynedd ar gyfer pob gweithiwr sydd heb wybodaeth ar ei ffeil er mwyn ceisio cael rhagor o wybodaeth.

Wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r gofynion estynedig ar gyfer monitro gweithwyr yn rhan o'r Ddeddf Cydraddoldeb, cynhaliodd y Cyngor arolwg monitro cydraddoldeb o'i holl weithwyr yn 2011. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau a oedd yn ymdrin â phob un o'r nodweddion gwarchodedig heblaw am feichiogrwydd. Ni chafodd y cwestiwn yma ei ofyn oherwydd mae'n debygol y bydd gwybodaeth ynghylch beichiogrwydd a mamolaeth eisoes ar gofnodion y gweithwyr, a gall y cyfnod ar gyfer dychwelyd i'r gwaith olygu fod yr wybodaeth ddim yn ddiweddar.

Mae'r Garfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi gweithio gyda meysydd gwasanaeth eraill i ddod o hyd i ragor o wybodaeth ddefnyddiol. Roedd hyn wedi arwain at greu holiadur a oedd yn cynnwys adrannau ynglŷn â'r defnydd o iaith arwyddion Brydeinig, gallu o ran y Gymraeg ac os oedd gan weithiwr ddyletswyddau gofal. Cafodd yr wybodaeth yma ei darparu yn ystadegol i'r meysydd gwasanaeth yn gymorth i'w gwaith a'u strategaethau.

Mae dadansoddiad ystadegol o'r wybodaeth yn cael ei chynnwys yn y tablau canlynol. Mae'n ymdrin â holl weithwyr y Cyngor gan gynnwys athrawon a staff ysgolion.

### **Pobl sy'n cael eu cyflogi yn ôl Nodwedd Warchodedig**

Cafodd yr wybodaeth ganlynol ei darparu drwy ddefnyddio rhifau yswiriant pob gweithiwr. Mae hyn yn sicrhau y bydd manylion yn cael eu cynnwys unwaith yn unig lle bod gweithiwr yn gweithio mwy nag un swydd. Mae hyn yn osgoi bod gwybodaeth yn cael ei dyblu. Mae'r wybodaeth yn cynnwys athrawon a staff ysgol. Bydd rhai cymariaethau yn cael eu gwneud â demograffig lleol Rhondda Cynon Taf am fod 80% o weithwyr yn byw yn ardal y Cyngor.

## Rhyw

Mae'r tabl isod yn dangos gwybodaeth yn ôl rhyw'r gweithwyr:

Rhyw	Cyfanswm	% o'r Gweithle
Dyn	2814	25.9%
Menyw	8036	74.1%
<b>Cyfanswm</b>	<b>10850</b>	<b>100%</b>

Mae'r tabl yn dangos yn glir bod y rhan fwyaf o weithlu'r Cyngor yn fenywod. Mae hyn wedi bod yn wir am sawl blwyddyn. Mae hyn yn gymharol ag awdurdodau eraill yng Nghymru.

## Oedran

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl grŵp oedran:

Oedran	Cyfanswm	% o'r Gweithle
16-24	741	6.8%
25-34	2030	18.7%
35-44	2655	24.5%
45-54	3311	30.5%
55-64	1876	17.3%
Dros 65 oed	237	2.2%
<b>Cyfanswm</b>	<b>10850</b>	<b>100%</b>

Mae'r proffil oedran wedi amrywio rhywfaint ers y llynedd.

## Anabledd

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl anabledd a dim anabledd:

Gwybodaeth	Cyfanswm	% o'r Gweithle
Anabl	232	2.1%
Dim anabledd	8810	81.2%
Ddim eisiau dweud	28	0.3%
Dim gwybodaeth	1780	16.4%
<b>Cyfanswm</b>	<b>10850</b>	<b>100%</b>

Mae gwybodaeth yn cael ei chadw am 84% o weithwyr. Nododd canran isel o weithwyr eu bod nhw'n anabl, ond efallai fod hyn ddim yn rhoi'r gwir bortread o anabledd yn y gweithle. Er bod yr holiadur cydraddoldeb staff yn diffinio anabledd, mae'n bosib fydd rhai gweithwyr sydd ag anabledd 'diffiniedig' ddim yn nodi fod ganddyn nhw anabledd.

## Hunaniaeth Genedlaethol ac Ethnigrwydd

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl eu tras/ethnigrwydd:

<b>Ethnigrwydd</b>	<b>Nifer</b>
Asiaidd	11
Asiaidd – Tsieineaidd	2
Asiaidd – Cernywaidd	1
Asiaidd – Indiaidd	1
Du	7
Du – Affricanaidd	1
Du – Prydeinig	1
Tsieineaidd	4
Cymysg - Arall	15
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	1
Cymysg – Gwyn a Du'r Affrica	1
Cymysg – Gwyn a Du'r Caribî	3
Arall	27
Ddim eisiau dweud	10
Gwyn	6262
Gwyn – Prydeinig	1109
Gwyn – Cernywaidd	2
Gwyn – Saes/Saesnes	28
Gwyn – Gwyddel/Gwyddeles	7
Gwyn – Arall	8
Gwyn – Albanwr/Albanes	7
Gwyn – Cymro/Cymraes	1295
Dim data	2047
<b>Cyfanswm</b>	<b>10850</b>

Mae hyn yn gynrychioladol o ddemograffig Rhondda Cynon Taf, lle mae 1% o'i bobl yn nodi bod ganddyn nhw dras heblaw am: Gwyn – Prydeinig, Cymro/Cymraes, Saes/Saesnes neu Albanwr/Albanes.

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl eu hunaniaeth genedlaethol:

<b>Hunaniaeth Genedlaethol</b>	<b>Nifer y gweithwyr</b>
Affricanaidd	6
Cefndir Asiaidd Arall	3
Cefndir cymysg Arall	2
Cefndir Gwyn Arall	19
Bangladeshi	1
Prydeinig	1786
Caribiaidd	1
Tsieineaidd	4
Saes/Saesnes	249
Ewropeaidd	18
Indiaidd	6
Gwyddel/Gwyddeles	23
Arall	14

Albanwr/Albanes	28
Cymro/Cymraes	5426
Gwyn ac Asiaidd	4
Gwyn a Du Affricanaidd	2
Gwyn a Du Caribiaidd	1
Dim data	3257
<b>Cyfanswm</b>	<b>10850</b>

Mae gyda ni wybodaeth am 70% o weithwyr. Mae'r mwyafrif o weithwyr yn nodi eu bod nhw'n 'Gwyn – Cymro/Cymraes'. Roedd 'Gwyn – Prydeinig yn dilyn hyn.

### Crefydd neu Gredo

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl eu crefydd/ cred:

<b>Crefydd</b>	<b>Cyfanswm</b>
Cristion	2621
Mwslim	2
Hindŵ	6
Iddew	1
Bwdhydd	10
Sïc	1
Arall	107
<b>% o'r gweithlu sy'n nodi eu bod nhw'n rhan o grefydd</b>	<b>25.3%</b>
Dim	2300
Ddim eisiau dweud	293
Dim gwybodaeth	5509
<b>Cyfanswm</b>	<b>10850</b>

Mae gyda ni wybodaeth am 51% o weithwyr sy'n nodi eu bod nhw'n Gristnogion. Mae 50% o'r boblogaeth leol yn nodi eu bod nhw'n Gristnogion ac mae 40% yn nodi eu bod nhw ddim yn dilyn crefydd.

### Cyfeiriadedd rhywiol

Mae'r tabl isod yn dangos gweithwyr yn ôl eu cyfeiriadedd rhywiol:

<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>	<b>Cyfanswm</b>
Heterorywiol	3628
Dyn hoyw	27
Menyw hoyw/Lesbiaidd	36
Deurywiol	13
<b>% o'r gweithlu sydd wedi nodi eu cyfeiriadedd rhywiol</b>	<b>34.1%</b>
Ddim eisiau dweud	205
Dim gwybodaeth	6941

Mae gwybodaeth yn cael ei chadw am 36% o weithwyr. Mae cynnydd o 1% wedi bod yn y ffigur yma ers y llynedd. Yn rhan o Raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall, bydd gwaith yn parhau i gael ei gyflawni i annog rhagor o weithwyr i gwblhau'r categori yma ar ffurflenni monitro cydraddoldeb.

### **Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Ar 31 Mawrth 2017, roedd 136 o weithwyr yn absennol ar gyfnod mamolaeth. Doedd dim un ohonyn nhw'n destun i achos disgyblu neu gŵyn. Yn ystod 2016/17, roedd 349 o weithwyr yn absennol ar gyfnod mamolaeth.

### **Ailbennu Rhywedd**

Does dim gwybodaeth benodol wedi'i chyhoeddi oherwydd y posibilrwydd o enwi unigolion. Mae gan y Cyngor Bolisi Ailbennu Rhywedd, a gafodd ei ddatblygu rhai blynyddoedd yn ôl oherwydd bod gweithiwr wedi gofyn am gymorth. Ers hynny, mae'r polisi wedi cael ei ddefnyddio ac mae cymorth wedi cael ei ddarparu yn ôl angen y gweithwyr.

### **Rheoliad 9 – Gwybodaeth am ryw**

Mae Rheoliad 9 o Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru yn mynnu bod yr wybodaeth benodol ganlynol yn cael ei darparu mewn perthynas â rhyw:

Nifer o weithwyr sydd wedi'u cyflogi ar 31 Mawrth 2017 yn ôl y canlynol:

- Swydd
- Graddfa
- Cyflog
- Math o gytundeb
- Patrwm gwaith.

Cafodd yr wybodaeth ei darparu ar sail y nifer o swyddi, fel bod y gweithwyr hynny sydd â mwy nag un swydd yn cael eu cynnwys yn ôl y swyddi sydd ganddyn nhw. Felly, mae'n bosib y bydd y niferoedd yn wahanol i'r rhai yn yr adran flaenorol. Mae'r wybodaeth yn cynnwys athrawon a staff sy'n gweithio mewn ysgol.

Mae'r tablau isod yn dangos yr wybodaeth benodol sydd ei hangen:

### **Gweithwyr yn ôl eu rhyw a'u swydd**

Mae dros fil o wahanol deitlau swyddi yn bodoli yn y Cyngor. Felly, mae'r swyddi wedi cael eu trefnu yn ôl categorïau o fewn y fframwaith cymwyseddau.



<b>Categori'r swydd</b>	<b>Menyw</b>	<b>Dyn</b>	<b>Prif gyfanswm</b>
Swyddog Gweinyddol	966	251	1217
Staff ategol	1458	564	2022
Pennaeth Cynorthwyol	43	31	74
Cymuned a Gofal Cymdeithasol	3435	313	3748
Dirprwy Bennaeth	93	41	134
Rheng-flaen a Gofal i Gwsmeriaid	241	164	405
Pennaeth	76	54	130
Rheolwr Ganol	140	80	220
Gweithiwr llaw medrus	36	112	148
Rheolwr Materion Strategol	33	39	72
Goruchwyliwr	166	185	351
Athro/Athrawes	1286	434	1720
Technegol, arbenigol a phroffesiynol	314	279	593
Athro/Athrawes sydd heb gymhwyso	10	6	16
<b>Cyfanswm</b>	<b>8297</b>	<b>2553</b>	<b>10850</b>

Yn debyg i'r flwyddyn ddiwethaf, mae'r mwyafrif o fenywod yn gweithio mewn meysydd sy'n 'draddodiadol i fenywod', yn enwedig mewn lleoliadau Cymunedol a Gofal Cymdeithasol. Bydd hyn yn cael ei archwilio'n fwy trylwyr yn rhan o Amcan Cyflogau'r Rhywiau y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

### **Gweithwyr yn ôl rhyw a graddfa**

Mae'r Cyngor yn gweithredu'r systemau graddio canlynol (diweddarwyd 31 Mawrth 2017.)

- Prif Swyddogion (Pennaeth y Gwasanaeth ac uwch)
- Cydgyngor Cenedlaethol
- Athrawon/Addysg

Mae'r tablau isod yn dangos gweithwyr yn ôl eu rhyw a'u graddfa:

### **Gweithwyr yn ôl rhyw a Graddfa – Prif Swyddogion**

<b>Graddfa</b>	<b>Menyw</b>	<b>Dyn</b>	<b>Cyfanswm</b>
Prif Weithredwr	0	1	1
Cyfarwyddwr Cyfadran	0	2	2

Cyfarwyddwr Lefel 1	1	3	4
Cyfarwyddwr Lefel 2	1	3	4
Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 1	1	2	3
Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2	1	5	6
Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1	13	11	24
Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2	4	6	10
<b>Cyfanswm</b>	<b>21</b>	<b>33</b>	<b>54</b>

Mae'r menywod sy'n Brif Swyddogion yn bennaf yn is ar y raddfa o ran Prif Swyddogion.

### Gweithwyr yn ôl rhyw a Graddfa - Cydgyngor Cenedlaethol

Graddfa	Menyw	Dyn	Cyfanswm
GR1	268	89	357
GR2	976	46	1022
GR3	600	166	766
GR4	907	299	1206
GR5	780	447	1227
GR6	1101	298	1399
GR7	520	130	650
GR8	256	125	381
GR9	210	119	329
GR10	158	139	297
GR11	280	112	392
GR12	137	62	199
GR13	102	57	159
GR14	10	6	16
GR15	42	28	70
<b>Cyfanswm</b>	<b>6347</b>	<b>2123</b>	<b>8470</b>

Er bod 75% o weithlu y Cyngor yn fenywod, mae'r wybodaeth yn nodi mai menywod sy'n dominyddu'r raddfa gyflog is. Mae hwn yn faes gaiff ei adolygu o hyd yn rhan o'r Amcan Cyflogau'r Rhywiau yn rhan o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

### Gweithwyr yn ôl rhyw a Graddfa – Athrawon/Addysg

Graddfa	Menyw	Dyn	Cyfanswm
Seicolegwyr a Chynghorwyr Addysg	68	25	93
Grwpiau Arwain/Penaethiaid	77	55	132
Dirprwy Benaethiaid	140	74	214

Athrawon	1369	452	1821
<b>Cyfanswm</b>	<b>1654</b>	<b>606</b>	<b>2260</b>

Mae'r ffigurau uchod yn dangos mai menywod yw'r mwyafrif yn y proffesiwn addysg (73%).

Mae crynhoi graddau cyflog unigol ym maes Addysg yn broses yn gymhleth, ac felly yn eithaf anodd ei chrynhai. Ond, mae rhaniad eithaf cyfartal rhwng dynion/menywod ar hyd y pwyntiau cyflogaeth. Does dim anghysonderau amlwg o ran eu gallu i symud drwy'r graddfeydd. Mae'r graddfeydd a'r pwyntiau cyflog yn seiliedig ar raddfeydd cyflog cenedlaethol cytûn. Mae gofynion penodol ynghlwm wrth bob graddfa a'r ffordd y mae gweithwyr yn symud drwyddyn nhw.

### Gweithwyr yn ôl math o gytundeb / patrwm gwaith

<b>Math o Gontract</b>	<b>Menyw</b>	<b>Dyn</b>	<b>Cyfanswm</b>
Amser Llawn, Parhaol	2415	1900	4315
Rhan Amser, Parhaol	1659	219	1878
Rhan Amser, Parhaol – Tymor yr ysgol yn unig	2032	70	2102
Parhaol – Tymor yr ysgol yn unig	143	22	165
Amser Llawn, Dros Dro	246	176	422
Rhan Amser, Dros Dro	130	48	178
Rhan Amser, Dros Dro – Tymor yr ysgol yn unig	733	62	795
Dros Dro – Tymor yr ysgol yn unig	33	5	38
Achlysurol	645	312	957
<b>Cyfanswm</b>	<b>8036</b>	<b>2814</b>	<b>10850</b>

Mae'r dadansoddiad o aelodau parhaol o staff sy'n fenywod/dynion yn debyg i'r gweithlu cyffredinol. Er bod 75% o'r gweithlu cyffredinol yn fenywod, mae canran uwch o'r menywod yn gweithio swyddi rhan amser neu yn ystod tymor yr ysgol o'i chymharu â dynion.

### Ymgeiswyr ar gyfer Swyddi neu Ddyrchafiad

Cafodd 343 o swyddi gwag eu hysbysebu yn ystod y flwyddyn 2016/2017. Mae'r tabl isod yn nodi canlyniadau monitro recriwtio o'r un cyfnod.

### Ymgeiswyr am Swyddi a Dyrchafiad yn ôl nodweddion gwarchoddedig

	Ymgeiswyr	Ar y rhestr Fer	Wedi'u penodi
<b>Dyn</b>	1392	868	208
<b>Menyw</b>	2593	1561	377
<b>Lleiafrif Ethnig</b>	155	60	8
<b>Anabl</b>	184	97	10
<b>Lesbiad, Hoyw, Deurywiol</b>	141	72	23

Mae'r nifer o unigolion a gafodd eu penodi ym mhob categori yn adlewyrchu cyfansoddiad cyffredinol y Cyngor.

## Hyfforddiant

Mae'r broses monitro cydraddoldeb yn cael ei chynnal yn ôl pwy sy'n mynychu cyrsiau hyfforddiant mewnol yn unig. Mae'r broses hefyd wedi cael ei chynnal drwy ddefnyddio ffurflenni monitro cydraddoldeb sydd nawr yn monitro holl nodweddion gwarchoddedig. Ychwanegwyd cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth yn ystod 2014/15.

Rydyn ni'n adnabod yr angen am hyfforddiant, dysgu a datblygiad drwy systemau adolygu cynlluniau a pherfformiad gweithlu'r Cyngor.

Yn ystod cyfweiliadau datblygiad personol, bydd rheolwyr yn trafod anghenion hyfforddiant, dysgu a datblygu â gweithwyr. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'r adolygiadau perfformiad a chymwyseddau'r swydd. Mae'r canlyniadau yn cael eu cynnwys mewn cynllun hyfforddiant adrannol neu ranbarthol.

Nid yw'r Cyngor yn monitro ceisiadau hyfforddiant sy'n cael eu gwrthod. Caiff hyn ei ystyried.

Cafodd 384 o ffurflenni monitro eu cyflwyno yn 2016/2017.

## Hyfforddiant yn ôl Rhyw

Cyfadran	Dyn	Menyw	Trawsryweddol	Ddim eisiau dweud	Dim data	Cyfanswm
Cyfadran y Prif Weithredwr	20	20	0	0	0	40
Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant	43	114	0	0	2	159
Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng-flaen	16	7	0	0	0	23
Addysg a Dysgu Gydol Oes	22	91	0	0	1	114
Ddim wedi'i nodi	9	39	0	0	0	48
<b>Cyfanswm</b>	<b>110</b>	<b>271</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>3</b>	<b>384</b>

### Hyfforddiant yn ôl Oedran

Cyfadran	16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65+	Ddim eisiau dweud	Dim data	Cyfanswm
Cyfadran y Prif Weithredwr	11	11	8	6	4	0	0	0	40
Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant	7	34	42	45	28	1	1	1	159
Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng-flaen	9	6	3	5	0	0	0	0	23
Addysg a Dysgu Gydol Oes	11	25	33	37	7	1	0	0	114
Ddim wedi'i nodi	13	8	9	12	6	0	0	0	48
<b>Cyfanswm</b>	<b>51</b>	<b>84</b>	<b>95</b>	<b>105</b>	<b>45</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>1</b>	<b>384</b>

### Hyfforddiant yn ôl Ethnigrwydd

Cyfadran	Prydeinig	Tsieinaidd	Cernyw aidd	Saes/Saesnes	Gwyddel /Gwyddales	Albanwr /Albanes	Cymro/Cymraes	Gwyn a Du Caribiaidd	Arall	Ddim eisiau dweud	Cyfanswm
Cyfadran y Prif Weithredwr	8	0	0	0	0	0	31	0	1	0	40
Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant	55	0	0	4	2	0	91	1	6	0	159
Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng-flaen	8	0	0	1	0	0	11	0	3	0	23
Addysg a Dysgu Gydol Oes	28	0	0	2	1	0	82	0	0	1	114
Ddim wedi'i nodi	15	0	0	2	0	1	30	0	0	0	48
<b>Cyfanswm</b>	<b>114</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>9</b>	<b>3</b>	<b>1</b>	<b>245</b>	<b>1</b>	<b>10</b>	<b>1</b>	<b>384</b>

### Hyfforddiant yn ôl Crefydd neu Gredo

Cyfadran	Cristion	Bwdhydd	Dim crefydd	Arall	Ddim eisiau dweud	Dim data	Cyfanswm
Cyfadran y Prif Weithredwr	13	0	20	0	2	5	40
Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant	61	1	65	5	11	16	159

Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng-flaen	5	0	16	1	0	1	23
Addysg a Dysgu Gydol Oes	47	1	55	5	3	3	114
Ddim wedi'i nodi	12	0	30	0	1	5	48
<b>Cyfanswm</b>	<b>138</b>	<b>2</b>	<b>186</b>	<b>11</b>	<b>17</b>	<b>30</b>	<b>384</b>

### Hyfforddiant yn ôl Beichiogrwydd a Mamolaeth

Cyfadran	Yn feichiog ar hyn o bryd neu wedi bod yn feichiog yn ystod y 12 mis diwethaf	Ddim yn feichiog ar hyn o bryd ac heb fod yn feichiog yn ystod y 12 mis diwethaf	Ddim eisiau dweud	Dim data	Cyfanswm
Cyfadran y Prif Weithredwr	0	39	0	1	40
Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant	3	138	2	16	159
Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng-flaen	0	22	0	1	23
Addysg a Dysgu Gydol Oes	4	107	1	2	114
Ddim wedi'i nodi	1	44	0	3	48
<b>Cyfanswm</b>	<b>8</b>	<b>350</b>	<b>3</b>	<b>23</b>	<b>384</b>

### Hyfforddiant yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol

Cyfadran	Heterorywiol	Hoyw/Lesbiad	Deurywiol	Ddim eisiau dweud	Dim data	Cyfanswm
Cyfadran y Prif Weithredwr	36	1	0	2	1	40
Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant	132	7	0	7	13	159
Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng-flaen	22	0	0	0	1	23
Addysg a Dysgu Gydol Oes	111	1	0	0	2	114
Ddim wedi'i nodi	44	0	1	0	3	48
<b>Cyfanswm</b>	<b>345</b>	<b>9</b>	<b>1</b>	<b>9</b>	<b>20</b>	<b>384</b>

## Disgyblu a Chwynion

Mae achosion disgyblu a chwynion yn cael eu cofnodi a'u monitro drwy System Vision. Roedd 237 o achosion yn ymdrin â disgyblu, chwynion ac urddas yn y gwaith a chymau gweithredu disgyblu yn ymwneud ag absenoldebau oherwydd salwch yn 2016/2017. Mae'r tablau isod yn dangos gwybodaeth monitro cydraddoldeb yn ôl y canlynol:

### Rhyw

	Cyfanswm	Disgyblu	Trefniadau absenoldeb oherwydd salwch	Cwynion	Urddas yn y gwaith
Dyn	82	50	29	1	2
Menyw	155	84	58	5	8
<b>Cyfanswm</b>	<b>237</b>	<b>134</b>	<b>87</b>	<b>6</b>	<b>10</b>

Rydyn ni wedi gweld lleihad yn nifer yr achosion Urddas yn y Gwaith o'i gymharu â'r llynedd. Efallai mai'r rheswm dros hyn yw cyflwyno hyfforddiant gwrthdaro.

### Oedran

	Cyfanswm	Disgyblu	Trefniadau absenoldeb oherwydd salwch	Cwynion	Urddas yn y gwaith
16 – 24	8	6	2	0	0
25 – 34	37	22	14	0	1
35 – 44	53	23	24	2	4
45 – 54	73	42	26	2	3
55 – 64	66	41	21	2	2
Dros 65 oed	0	0	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>237</b>	<b>134</b>	<b>87</b>	<b>6</b>	<b>10</b>

Mae'r tabl yn nodi bod y rhan fwyaf o achosion disgyblu a salwch, yn ystod 2016/17, wedi digwydd rhwng oeddrannau 45 a 54.

### Anabledd

	Cyfanswm	Disgyblu	Trefniadau absenoldeb oherwydd salwch	Cwynion	Urddas yn y gwaith
Anabl	21	6	15	0	0
Dim anabledd	196	115	65	6	10

Dim gwybodaeth	<b>20</b>	13	7	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>237</b>	<b>134</b>	<b>87</b>	<b>6</b>	<b>10</b>

### Ethnigrwydd

	<b>Cyfanswm</b>	<b>Disgyblu</b>	<b>Trefniadau absenoldeb oherwydd salwch</b>	<b>Cwynion</b>	<b>Urddas yn y gwaith</b>
Asiaidd	<b>1</b>	1	0	0	0
Du	<b>0</b>	0	0	0	0
Tsieineaidd	<b>0</b>	0	0	0	0
Cymysg	<b>1</b>	0	0	0	1
Gwyn	<b>207</b>	116	76	6	9
Arall	<b>0</b>	0	0	0	0
Dim gwybodaeth	<b>28</b>	17	11	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>237</b>	<b>134</b>	<b>87</b>	<b>6</b>	<b>10</b>

### Crefydd neu Gredo

	<b>Cyfanswm</b>	<b>Disgyblu</b>	<b>Trefniad au absenold eb oherwydd salwch</b>	<b>Cwynion</b>	<b>Urddas yn y gwaith</b>
Dim crefydd	<b>62</b>	35	23	0	4
Cristion	<b>51</b>	32	16	2	1
Arall	<b>6</b>	2	3	1	0
Ddim eisiau dweud	<b>3</b>	2	1	0	0
Dim gwybodaeth	<b>115</b>	63	44	3	5
<b>Cyfansymiau</b>	<b>237</b>	<b>134</b>	<b>87</b>	<b>6</b>	<b>10</b>

### Cyfeiriadedd Rhywiol

	<b>Cyfanswm</b>	<b>Disgyblu</b>	<b>Trefniad au absenold eb oherwydd salwch</b>	<b>Cwynion</b>	<b>Urddas yn y gwaith</b>
--	-----------------	-----------------	--	----------------	---------------------------



Heterorywiol	<b>80</b>	42	32	2	4
Hoyw/Lesbiad	<b>2</b>	2	0	0	0
Deurywiol	<b>1</b>	1	0	0	0
Ddim eisiau dweud	<b>2</b>	1	1	0	0
Dim gwybodaeth	<b>152</b>	88	54	4	6
<b>Cyfansymiau</b>	<b>237</b>	<b>134</b>	<b>87</b>	<b>6</b>	<b>10</b>

### Ailbennu Rhywedd a Beichiogrwydd a Mamolaeth

Doedd dim un o'r gweithwyr yn y categorïau hyn yn destun i achosion disgyblu, salwch neu gwynion.

### Gadael Cyflogaeth

Mae'r wybodaeth a gasglwyd o System Vision yn dangos bod 1,230 o weithwyr wedi gadael eu swyddi yn y Cyngor yn 2016/2017, gan gynnwys 32 o weithwyr a gafodd eu diswyddo. Dylid nodi bod y gweithwyr yma yn gweithio mewn ysgol. Ysgolion, yn unol â Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion, sy'n penderfynu ar ddiswyddo staff.

Mae'r tablau isod yn dangos y niferoedd a adawodd yn 2016/17 a'u rhesymau dros adael:

### Rhesymau am adael yn ôl rhyw

<b>Rheswm dros adael</b>	<b>Menyw</b>	<b>Dyn</b>	<b>Cyfanswm</b>
Oedran Ymddeol	37	19	56
Marwolaeth	8	3	11
Diswyddo	1	3	4
Ymddeoliad Cynnar (Athrawon)	2	3	5
Diwedd Cytundeb	200	72	272
Methu'r cyfnod prawf	2	0	2
Salwch	9	6	15
Cytundeb Cytûn	86	33	119
Dileu Swydd	28	4	32
Trosglwyddo i Gyngor arall	11	7	18
Gwirfoddol	329	144	473
Ymddeol Cynnar Gwirfoddol, gyda Dileu Swyddi/Diswyddo	81	25	106
Dileu swydd – Gwirfoddol	106	11	117
<b>Cyfanswm</b>	<b>900</b>	<b>330</b>	<b>1230</b>

Mae rhyw'r bobl sy'n gadael cyflogaeth yn adlewyrchu rhyw cyffredinol y Cyngor.

### Rheswm dros adael yn ôl oedran

Rheswm dros adael	18-24	25-34	35-44	45-54	55-64	Dros 65 oed	Cyfanswm
Oedran Ymddeol	0	0	0	0	25	31	56
Marwolaeth	0	0	0	1	8	2	11
Diswyddo	0	2	0	2	0	0	4
Ymddeoliad Cynnar (Athrawon)	0	0	0	0	5	0	5
Diwedd Cytundeb	68	95	45	34	19	11	272
Methu'r cyfnod prawf	1	0	1	0	0	0	2
Salwch	1	0	2	2	8	2	15
Cytundeb Cytûn	0	13	22	35	39	10	119
Dileu Swydd	0	2	5	6	19	0	32
Trosglwyddo i Gyngor arall	0	8	7	3	0	0	18
Gwirfoddol	41	167	104	87	61	13	473
Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol a Swydd yn cael ei dileu	0	0	0	0	93	13	106
Dileu swydd – Gwirfoddol	1	15	33	51	14	3	117
<b>Cyfanswm</b>	<b>112</b>	<b>302</b>	<b>219</b>	<b>221</b>	<b>291</b>	<b>85</b>	<b>1230</b>

Gadawodd y rhan fwyaf o'r gweithwyr oherwydd cytundeb yn dod i ben neu o wirfodd. Gadawodd y rhan fwyaf o bobl dros 55 oed oherwydd cyfleoedd i gymryd Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol.

### Rheswm dros adael yn ôl Anabledd

Rheswm dros adael	Cyfanswm
Oedran Ymddeol	1
Marwolaeth	2
Diwedd Cytundeb	9
Salwch	2
Cytundeb Cytûn	8
Gwirfoddol	7
Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol a Swydd yn cael ei dileu	3

Dileu swydd – Gwirfoddol	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>33</b>

### Rheswm dros adael yn ôl tras ethnig

Rheswm dros adael	Gwyn	Lleiafrif Ethnig	Dim data	Cyfanswm
Oedran Ymddeol	51	0	5	56
Marwolaeth	10	0	1	11
Diswyddo	4	0	0	4
Ymddeoliad Cynnar (Athrawon)	5	0	0	5
Diwedd Cytundeb	180	0	92	272
Methu'r cyfnod prawf	1	0	1	2
Salwch	14	0	1	15
Cytundeb Cytûn	100	0	19	119
Dileu Swydd	25	0	7	32
Trosglwyddo i Gyngor arall	12	0	6	18
Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol a Swydd yn cael ei dileu	102	0	4	106
Gwirfoddol	348	3	122	473
Dileu swydd – Gwirfoddol	102	0	15	117
<b>Cyfanswm</b>	<b>954</b>	<b>3</b>	<b>273</b>	<b>1230</b>

### Rheswm dros adael yn ôl Crefydd neu Gred

Rheswm dros adael	Cristion	Arall	Dim	Ddim eisiau dweud	Dim data	Cyfanswm
Oedran Ymddeol	19	2	7	1	27	56
Marwolaeth	2	0	3	0	6	11
Diswyddo	3	0	1	0	0	4
Ymddeoliad Cynnar (Athrawon)	1	0	0	0	4	5
Diwedd Cytundeb	44	0	50	8	170	272
Methu'r cyfnod prawf	1	0	1	0		2
Salwch	2	0	2	0	11	15
Cytundeb Cytûn	29	1	21	2	66	119
Dileu Swydd	13	1	1	0	17	32
Trosglwyddo i Gyngor arall	1		4	1	12	18

Gwirfoddol	100	2	113	15	243	473
Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol a Swydd yn cael ei dileu	40		15	3	48	106
Dileu swydd – Gwirfoddol	28	2	20	3	64	117
<b>Cyfanswm</b>	<b>283</b>	<b>8</b>	<b>238</b>	<b>33</b>	<b>668</b>	<b>1230</b>

### Rheswm dros adael yn ôl cyfeiriadedd Rhywiol

Rheswm dros adael	Hetro rywiol	Hoyw/ Lesbiad	Deury wiol	Ddim eisiau dweu d	Dim data	Cyfan swm
Oedran Ymddeol	22	0	0	2	32	56
Marwolaeth	3	0	0	0	8	11
Diswyddo	2	1	0	0	1	4
Ymddeoliad Cynnar (Athrawon)	1	0	0	0	4	5
Diwedd Cytundeb	33	0	0	9	230	272
Methu'r cyfnod prawf	2	0	0	0	0	2
Salwch	2	0	0	1	12	15
Cytundeb Cytûn	43	0	1	2	73	119
Dileu Swydd	10	0	0	0	22	32
Trosglwyddo i Gyngor arall	2	0	0	0	16	18
Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol a Swydd yn cael ei dileu	45	0	0	0	61	106
Gwirfoddol	127	3	1	7	335	473
Dileu swydd – Gwirfoddol	38	2	0	1	76	117
<b>Cyfanswm</b>	<b>330</b>	<b>6</b>	<b>2</b>	<b>22</b>	<b>870</b>	<b>1230</b>